# Cyfarwyddwr y
# Gwasanaethau Cymdeithasol




# Adroddiad Blynyddol 2025 – 2026

# Cynnwys


**1.** Crynodeb y Cyfarwyddwr 3

**2.** Adran Cyd-destun 5

a. Arweinyddiaeth 6
b. Gweithlu 7
c. Adnoddau Ariannol 11

**3.** Asesu Perfformiad 13
a. Pobl 13
b. Atal 23
c. Partneriaeth ac Integreiddio 44
d. Lles 49

**4.** Adran Gwybodaeth Arall 53

a. Arolygon ac Adolygiadau 53
b. Cwynion a Sylwadau 55
c. Ffynonellau gwybodaeth eraill 57

## 1. Crynodeb y Cyfarwyddwr

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych yn dangos sut ydym wedi hybu lles ac wedi bodloni'r safonau lles dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn ystod y 12 mis diwethaf.

Dyma fy nhrydydd Adroddiad Blynyddol ar ddeg ac mae'n edrych yn ôl yn ddidwyll ar heriau a chyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf, ynghyd ag ysgogiad ac ymrwymiad diffuant i gyflawni ein dyheadau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae Sir Ddinbych, fel Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru, yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol gyda chost darparu Gofal Cymdeithasol yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae'r galw a chymhlethdod yr angen yn parhau i gynyddu a thrwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau gyda'r rhaglen drawsnewid yn ein gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant. Gyda gallu cyfyngedig, mae'r angen i drawsnewid gwasanaethau i sicrhau bod gennym wasanaethau cynaliadwy sy'n gallu bodloni anghenion yn y dyfodol, wedi cael ei fantoli â bodloni ein rhwymedigaethau statudol.

Mae Gwasanaethau Plant wedi parhau i ganolbwyntio ar gynyddu nifer y darparwyr lleoliadau maethu mewnol ac rydw i'n falch iawn o'r gefnogaeth a'r cydweithio sydd wedi digwydd ym mhob cwr o'r Cyngor sydd wedi arwain at gyflwyno Polisi Deall Maethu corfforaethol i gefnogi unrhyw staff sy'n Ofalwyr Maeth. Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd o ran y gwaith o roi Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar waith, gan ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Mae ein Gwasanaethau Oedolion wedi cael ychydig o arian grant sydd wedi caniatáu iddynt gyflymu'r gwaith o roi dull ail-alluogi ar waith yn y drws ffrynt. Yn ogystal â rhyddhau capasiti ein hymarferwyr rheng flaen, mae hyn wedi caniatáu i ni fuddsoddi mewn staff cefnogi i ddileu beichiau gweinyddol fel bod y tîm ehangach yn gallu canolbwyntio ar eu hasesiadau a rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'w dinasyddion. Yn y cyfamser, mae rhestrau aros am asesiadau yng ngwasanaethau oedolion yn parhau i gynyddu, ond rydym yn monitro ac yn ail flaenoriaethu'r rhain yn rheolaidd.

Mae problemau parhaus yn ymwneud â recriwtio a chadw staff yng Ngwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Phlant, ond mae hyn mewn meysydd 'ystyfnig' penodol a

chymerwyd camau i geisio gwella'r sefyllfa. Rydym wedi buddsoddi mwy nag erioed yn ein hyfforddiant ar gyfer meithrin ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain, a bydd hyn yn gyfrifol am niferoedd uwch o'r staff presennol sydd mewn rolau ymarferwyr gofal cymdeithasol yn dod yn weithwyr cymdeithasol cymwys dros gyfnod o 2 i 3 blynedd.

Rwy'n falch o ddweud ein bod, drwy weithio mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), wedi perfformio'n dda yn gyson i leihau oedi gyda phecynnau gofal wrth ryddhau o'r ysbyty fel bod pobl yn gallu dychwelyd adref neu i ddarpariaeth gymunedol briodol. Ein pwyslais wrth fwrw ymlaen yw canolbwyntio mwy ar atal mynediad diangen i'r ysbyty a darparu gofal cymunedol yn agosach i'r cartref.

Wedi gweithio gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers i mi gyrraedd Sir Ddinbych ar ailddatblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl, roeddwn yn falch iawn pan gyhoeddwyd buddsoddiad o £33 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror. Bydd y cyfleuster pwrpasol newydd yn cynnwys uned mân anafiadau ac uned ail-alluogi 14 gwely fydd yn dod â Gofal Cymdeithasol, y GIG a'r Trydydd Sector at ei gilydd i ddarparu gofal i bobl sy'n dychwelyd adref ar ôl triniaeth feddygol a llawfeddygol yn yr ysbyty.

Mae'r heriau parhaus sy'n wynebu gofal cymdeithasol yn Sir Ddinbych a thrwy Gymru gyfan yn parhau ac er ein bod yn parhau i drawsnewid ein gwasanaethau, nid yw'n teimlo bod pethau'n newid mor gyflym ag y dylent. Mae angen mwy o fuddsoddiad cyfalaf fel ein bod yn gallu darparu mwy o lety byw â chymorth i atal pobl rhag gorfod mynd i ofal preswyl ac i barhau'n rhan o'u cymuned leol. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer cartrefi gofal preswyl bychan i blant sy'n derbyn gofal ond eto, mae angen i hyn symud ymlaen yn gyflym.

Mae adnoddau ariannol yn dal i fod yn heriol nid yn unig i Sir Ddinbych ond i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig. Ond mae hyn yn cael ei wneud yn saith gwaeth oherwydd yr ansicrwydd ynghylch arian grant blynyddol a ddefnyddir yn bennaf i ddarparu gwasanaethau statudol ymyrryd yn gynnar ac atal.

Mae fy nhîm uwch arweinwyr a minnau'n parhau i gydweithio gyda'n cydweithwyr corfforaethol yma yn Sir Ddinbych, a chyda swyddogion cyfatebol ledled rhanbarth Gogledd Cymru. Mae Sir Ddinbych yn parhau i gynnal y Tîm Cydweithio

Rhanbarthol. Rydym hefyd yn gweithio'n genedlaethol yng Nghymru, yn enwedig drwy'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal, i ymdrin â'r heriau mewn gofal cymdeithasol. Mae ein pwyslais wedi bod ar ddynodi datrysiadau technoleg ddigidol fydd yn ategu at ddarparu gofal cymdeithasol, lleihau'r ddibyniaeth ar becynnau gofal traddodiadol a chael meddalwedd rheoli cwsmeriaid cadarn fydd yn lleihau dyblygu gwaith ac yn symleiddio prosesau.

Wrth edrych ymlaen at 2026 / 2027, rydym yn aros am fanylion cyfeiriad gofal cymdeithasol i'r dyfodol a pharhau i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol gan Senedd newydd Cymru. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i lobïo am fuddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol i leihau derbyniadau y gellir eu hosgoi i'r ysbyty a datblygu darpariaeth i ganiatáu 'cam i fyny' a 'cham i lawr' mewn perthynas â gofal yn y gymuned, a gwella'r ddarpariaeth i gadw pobl yn annibynnol yn eu cartrefi cyhyd â phosibl.

Mewn gwasanaethau plant, bydd y pwyslais yn parhau ar weithredu'r gofynion dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) newydd megis archwilio cyfleoedd i atal ein pobl ifanc rhag gorfod cael eu symud y tu allan i'r sir neu hyd yn oed o'r wlad, yn ogystal â bwrw ymlaen â'n huchelgais i gael llai o blant yn mynd i mewn i'r system ofal ac yn ei gadael pan fo'n ddiogel ac y briodol i wneud hynny.

Rwyf hefyd yn falch o ddweud ein bod wedi croesawu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol yn ein holl wasanaethau cymdeithasol; mae gennym lysgennad diwylliannol rhagweithiol sy'n trafod â chyfoedion o bob cwr o Gymru ac yn dysgu oddi wrthynt, ac yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i hybu polisi dim goddefgarwch y Cyngor at hiliaeth.

Yn ystod y flwyddyn hon, cawsom nifer o archwiliadau ac arolygon gan Arolygiaeth Gofal Cymru a barnwyd bod ein darpariaeth gofal mewnol Gwasanaethau Oedolion yn dda a'n gwasanaeth gofal yn y cartref yn rhagorol am les. Cafodd ein Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion archwiliad arfarnu perfformiad ym mis Medi 2025 a chafwyd adborth rhagorol oedd yn cydnabod nifer o gryfderau.

Fel bob amser, hoffwn ddiolch i fy nhîm cyfan, sy'n parhau i weithio'n ddiflino ac yn broffesiynol, am eu holl waith - eu hadroddiad nhw yw hwn gymaint â minnau.


Nicola Stubbins

Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg

## 2. Adran cyd-destun

- AD/001 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer oedolion – nifer y cysylltiadau yn ystod 2025 / 2026 oedd 20216, cynnydd o 4.35% ers 2024 / 2025.
- AD/002 – Darparu cyngor neu gymorth i oedolion – o'r 20216, darparwyd cyngor a chymorth i 44.6% (9026); yr oedd hyn yn bennaf gan ein Hymgynghorwyr Un Pwynt Mynediad neu Lyw-wyr Cymunedol yn ein Pwyntiau Siarad. Mae hyn yn ostyngiad o 5.11% ers 2024 / 2025.
- AD/004 – Asesiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion – cwblhawyd 9770 o asesiadau yn ystod y flwyddyn, sy'n 48 yn llai nag yn 2024 / 2025.
- AD/005 – Anghenion cymwys oedolion – o'r 9770 o asesiadau a gwblhawyd, yr oedd gan 95% (9307) anghenion cymwys; mae hyn 137 yn llai o bobl nag yn 2024 / 2025.
- AD/012 – Cynlluniau gofal a chymorth oedolion – gellid bodloni anghenion 3945 o bobl drwy gynllun gofal a chymorth yn unig; mae hynny'n 40% o nifer y bobl oedd ag anghenion cymwys, ac mae hyn yn gynnydd o 3.2% o gymharu â 2024 / 2025.
- CH/001 – Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant yn ystod 2025 / 2026 oedd 6596, sy'n gynnydd o 15% ers 2024 / 2025 (5743).
- CH/006 – Asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant – yn ystod 2025 / 2026, cwblhawyd 438 o asesiadau ar gyfer plant o'i gymharu â 275 yn 2024 / 2025, sy'n gynnydd o 37%.

Yn ein Gwasanaethau Oedolion, er bod cynnydd bychan wedi bod yn nifer y cysylltiadau â'n Un Pwynt Mynediad, rydym o ganlyniad wedi gweld gostyngiad bychan yn ein dangosyddion perfformiad allweddol eraill. Er bod cynnydd bychan yn nifer y bobl y mae eu hanghenion yn cael eu bodloni gan gynllun gofal a chymorth o'i gymharu â 2024 / 2025, ar y cyfan, rydym yn gallu bodloni anghenion pobl drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a chyfeirio at wasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal.


Yn ein Gwasanaethau Plant, bu cynnydd o 15% yn nifer y cysylltiadau, sydd wedi golygu bod cynnydd yn nifer yr asesiadau plant sy'n cael eu cwblhau mewn

blwyddyn. Ochr yn ochr â hyn, bu mwy o bwyslais ar asesiadau prydlon a chofnodi data, sydd wedi cyfrannu at y cynnydd sylweddol o'i gymharu â 2024 / 2025.

## Arweinyddiaeth

Mae Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn rhan o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn Sir Ddinbych ynghyd â'r Prif Swyddog Gweithredol a 2 Gyfarwyddwr Corfforaethol arall.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn dod dan gyfarwyddiaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Mae gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn rhan o Wasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd ac mae gwasanaethau cymdeithasol plant o fewn Gwasanaethau Plant ac Addysg.




O fewn strwythur gwleidyddol Sir Ddinbych, mae gennym aelod arweiniol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac aelod arweiniol ar gyfer Gwasanaethau Plant ac Addysg, ac mae'r ddau'n cymryd rhan weithredol yn arweinyddiaeth ein gwasanaethau cymdeithasol.

Mae’r Cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu mewnol er mwyn rheoli Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd a Gwasanaethau Plant ac Addysg yn effeithiol.

Cyflwynir adroddiadau i wahanol Bwyllgorau Craffu yn ystod y flwyddyn i alluogi Aelodau Etholedig i graffu ar bolisi a pherfformiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol a monitro cynnydd unrhyw gamau sy’n ofynnol i ymateb i adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr neu adroddiad blynyddol AGC.

Mae gennym broses hefyd sydd wedi hen ymsefydlu ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, lle mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn cael ei herio’n flynyddol ar feysydd fel perfformiad y gwasanaeth ac arweinyddiaeth. Mae’r panel ar gyfer pob cyfarfod herio perfformiad gwasanaethau’n cynnwys y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol; Aelodau Arweiniol; Aelodau Pwyllgorau Craffu a’n rheoleiddwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru).

Yn ogystal â’r broses herio gwasanaethau, mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad cadarn, sy’n cynnwys cyflwyno adroddiadau perfformiad rheolaidd i’r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Pwyllgor Craffu, a’r Cabinet, a chyflwyno adroddiadau amrywiol i’r pwyllgor craffu ar faterion gwasanaeth arbennig megis Digartrefedd, Contractau a Chomisiynu a Chanmoliaeth a Chwynion.

Ar gyfer 2024 / 2025 rhoddwyd Bwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid ar waith gan y Cyngor i fonitro a rheoli cyllideb y Cyngor, ond hefyd i wneud penderfyniadau a monitro trawsnewidiad y Cyngor i leihau pwysau ariannol a datblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae’r Bwrdd yn cynnwys Aelodau Cabinet a swyddogion o’r Tîm Gweithredol Corfforaethol. Mae gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant wedi cyflwyno achosion busnes ac adroddiadau i Fwrdd y Gyllideb a Thrawsnewid yn ystod y flwyddyn.

## Gweithlu

Rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, mae’r gyfarwyddiaeth wedi cyflogi **739** aelod o staff ledled meysydd Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mae hyn yn gynnydd bychan yn y nifer ar gyfer 2024 / 2025 ac mae’n ganlyniad ceisiadau llwyddiannus i gefnogi trawsnewid y gwasanaethau a ddarperir.

Ar gyfartaledd roedd **538** aelod o staff mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd drwy gydol y cyfnod adrodd mewn timau gweithredol a gwasanaethau darparwyr ac ar gyfartaledd roedd **28** o swyddi gweigion gweithredol drwy gydol y cyfnod, sydd ychydig yn is na'r hyn oedd yn adroddiad 2024 / 2025. Mae hyn yn duedd amlwg ar i lawr o'i gymharu ag adroddiad y llynedd. Mae'r swyddi gweigion yn parhau i fod yn gymysgedd o swyddi gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol a gweithwyr gofal cymdeithasol ac ar gyfartaledd, mae'r gwasanaeth wedi cyflogi **6** aelod o staff drwy asiantaethau. Mae hyn yn llai na'r hyn a nodwyd y llynedd. Yn gyffredinol, mae'r rhain wedi bod yn swyddi gwaith cymdeithasol mewn meysydd arbenigol megis Aseswyr Budd Pennaf mewn Diogelu ac Ymarferwyr Proffesiynol Cymeradwy Iechyd Meddwl mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl, ond mae rhai lleoliadau Adnoddau Cymunedol yn defnyddio mwy a mwy staff asiantaeth, ac rydym yn ceisio ymdrin â hyn.

Roedd **205** o aelodau o staff ar gyfartaledd yng Ngwasanaethau Plant ac Addysg yn ystod y cyfnod adrodd, a'r nifer cyfartalog o swyddi gweigion oedd **7**. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â swyddi gwaith cymdeithasol mewn timau gweithredol rheng flaen lle mae anawsterau sylweddol yn parhau o ran recriwtio a chadw staff. Mae hwn yn duedd a welir ym mhob cwr o Gymru ac rydym yn cysylltu â mentrau rhanbarthol a chenedlaethol i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth wedi cyflogi **5** gweithiwr asiantaeth ar gyfartaledd dros y cyfnod, ar gyfer swyddi gwaith cymdeithasol a gwaith cefnogi.

Mae'r proffil o ofal yn Sir Ddinbych yn parhau i ffafrio gwasanaethau wedi eu comisiynu, a nododd Arolygiaeth Gofal Cymru bod **189** o wasanaethau cartrefi gofal, gofal plant a chwarae cymeradwy ledled y sir (ar 28 Ionawr 2026, https://www.arolygiaethgofal.cymru/offer-data). Mae hyn yn ostyngiad bychan ers y llynedd pan oedd 194 o leoliadau i gyd.

Ar y cyfan, nid oes newid mewn lleoliadau gofal gyda darpariaeth nyrsio a hebddo a chartrefi plant ers 2024 / 2025 a gellir ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| Math o wasanaeth | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|
| Oedolion a Phlant heb nyrsio | 5 |
| Oedolion gyda nyrsio | 13 |
| Oedolion heb nyrsio | 56 |
| Cartref Plant | 10 |

Cyfanswm o **84** lleoliad sy'n darparu **1,486** lle. O ran Gwasanaethau Cartrefi Gofal, dywedwyd bod **2,166** o weithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu cyflogi mewn lleoliadau cartrefi gofal preswyl a nyrsio. Mae hyn gyfystyr â **4.1%** o'r boblogaeth oed gweithio yn Sir Ddinbych.

Mae nifer y gwasanaethau cymeradwy gofal plant a chwarae wedi gostwng i **105** o 110 yn 2024 / 2025. Mae 4 yn llai o Ganolfannau Gofal Dydd i Blant ac 1 gwarchodwr yn llai.  Bellach mae gennym **3,207** lle i gyd yn cael eu darparu.

Mae'r dadansoddiad ar gyfer y lleoliadau hyn fel a ganlyn:

| Math o wasanaeth | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|
| Gwarchodwr plant | 33 |
| Canolfan Gofal Dydd i Blant | 72 |

Y Bwrdd Iechyd Lleol yn hytrach na'r Awdurdod Lleol sy'n adrodd ar ddata'r Datganiad Blynyddol a gesglir gan Arolygiaeth Gofal Cymru ar Wasanaethau Gofal yn y Cartref. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod yr asiantaethau a gomisiynir yn gweithio mewn sawl sir. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n cynnwys ardal y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, dywedir bod **111** o asiantaethau ar waith, yn cynnwys yr hyn a gynigir gan yr Awdurdod Lleol.

Mae anawsterau recriwtio a chadw staff yn parhau ar draws y sector gofal, yn enwedig mewn swyddi gwaith cymdeithasol sydd angen profiad mewn Gwasanaethau Plant. Mae recriwtio'n tueddu i fod yn anoddach mewn Gwasanaethau Gofal Cartref, ond yn arbennig felly mewn gwasanaethau gofal yn ne'r sir lle mae'r ddemograffeg yn fwy gwledig. Rydym yn ceisio sefydlu llwybrau gyrfa gyda chefnogaeth colegau lleol a mentrau dan arweiniad Gofalwn Cymru.

Mae cyfradd gyfartalog y trosiant mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd ar gyfer 2025 / 2026 tua **13%**, sy'n is na'r llynedd. Mae cyfradd gyfartalog y trosiant yng Ngwasanaethau Plant ac Addysg yn **10.8%.**O'r roi mewn cyd-destun cenedlaethol, dywedodd Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu 'Harolwg Dweud eich Dweud' i'r gweithlu bod nifer sy'n gyfystyr â 15% o'r gweithlu cofrestredig gofal cymdeithasol wedi gadael eu swyddi yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2026. Yr hyn sy'n peri pryder yw eu bod yn dweud bod **20%** o'r gweithwyr wedi nodi eu bod yn bwriadu gadael eu swyddi cyn pen 14 mis. Yn bendant, mae'r rhain yn dueddiadau sydd i'w gweld yn lleol ac ar hyd a lled Gogledd Cymru.

Mae ein rhaglen 'meithrin ein gweithwyr ein hunain' mewn gwaith cymdeithasol yn dal i ddatblygu, ac mae nifer yr ymgeiswyr sy'n cael eu noddi gan yr Awdurdod Lleol ar raglen Gradd Gwaith Cymdeithasol y Brifysgol Agored (Cymru) yn parhau i gynyddu bob blwyddyn. Mewn meysydd eraill fel Therapi Galwedigaethol rydym yn parhau i weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) i gynyddu nifer y lleoedd wedi eu comisiynu ar gynllun Gradd Therapi Galwedigaethol ym Mhrifysgol Wrecsam gyda lleoedd wedi eu clustnodi ar gyfer Awdurdodau Lleol – cydnabyddiaeth o'r angen am y swyddi hyn yn y gymuned yn ogystal â mewn lleoliadau iechyd. Gobeithir y bydd datblygu'r llwybrau hyn yn lleihau trosiant yn y dyfodol.

Mae prosiect darparwyr micro Sir Ddinbych yn dal i dyfu a hyd at 31 Mawrth 2026, mae **93** o ddarparwyr ar y cyfeiriadur yn darparu **1413** o oriau o ofal yr wythnos ar gyfartaledd. Nifer fechan iawn o ddinasyddion sy'n aros am becyn gofal yn y cartref o un mis i'r llall gennym.

Mae cefnogaeth les ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a gwasanaethau a gomisiynir yn parhau ar gael drwy 'Canopi', sy'n darparu cefnogaeth iechyd meddwl i staff y GIG a staff gofal cymdeithasol ledled Cymru yn

rhad ac am ddim. Mae'n darparu gwasanaeth hunanatgyfeiriad a gall gynnig cefnogaeth sy'n cynnwys adnoddau hunangymorth, cefnogaeth cynghreiriad lles, hunangymorth dan arweiniad ac ymgynghoriadau dros y we.

[https://gofalwn.cymru/newyddion/canopi-mental-health-support-for-nhs-and-social-care-staff-across-wales](https://gofalwn.cymru/newyddion/canopi-mental-health-support-for-nhs-and-social-care-staff-across-wales)

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gallu cael mynediad hefyd at y Rhaglen Cymorth i Weithwyr corfforaethol: 'Vivup'. Mae'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn cynnig cefnogaeth debyg i'r hyn a gynigir gan Canopi; sef cefnogaeth, cyngor, a gwybodaeth i gynorthwyo gydag iechyd meddwl a lles; cefnogaeth gwnsela gyfrinachol annibynnol; cymorth gyda nifer o wahanol faterion, yn cynnwys perthnasoedd, arian, anawsterau teuluol, gorbryder, profedigaeth, straen, iselder, problemau yn y gweithle a thrawma.

Fel gwasanaeth, rydym yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o Asesiadau Risg Straen a Chynlluniau Gweithredu Lles i ddynodi cefnogaeth ac addasiadau priodol. Fel rhan o Gynllun Hyfforddi'r Gweithlu, mae gennym aelod o staff sydd wedi hyfforddi i ddarparu'r cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ac mae gan y ddau wasanaeth fynediad un ai at Gynorthwywyr Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl neu Gefnogwyr Iechyd Meddwl. Mae hyfforddiant ar ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl ar gael drwy e-Ddysgu neu sesiynau mewn dosbarth.

Hefyd, mae gan staff a gyflogir yn uniongyrchol fynediad at asesiadau a chefnogaeth Iechyd Galwedigaethol drwy atgyfeiriad. Mae'r Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol a Lles yn gallu rhoi cyngor yn annibynnol ar bob mater yn ymwneud ag iechyd yn y gwaith.

Yn ystod y cyfnod adrodd mae **31** aelod o staff ar gyfartaledd wedi bod i ffwrdd o'r gwaith yn sâl mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd a **15** mewn Addysg a Gwasanaethau Plant.

Mae recriwtio staff cymwys a phrofiadol i swyddi uwch a rheoli wedi bod yn broblem allweddol. Mae rhai swyddi mewn sawl maes wedi parhau'n wag - yn fwy penodol Gweithiwr Cymdeithasol Plant profiadol.

Mae recriwtio i swyddi rheoli'n parhau i fod yn her, ac ymddengys nad oes llwybrau datblygiad ar gyfer gweithwyr fel oedd yn arfer bod. Rydym yn aros i fframwaith

Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus gael ei lansio yn y gobaith y bydd hyn yn rhoi fframwaith.

Gweithlu sy'n heneiddio - ar hyn o bryd mae **46%** o weithlu Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd yng nghategorïau oedran 50-59 a 60+. Mae rhai o'r rhain mewn swyddi arweinyddiaeth allweddol. Yng Ngwasanaethau Plant ac Addysg mae **38%** o'r gweithlu yn yr ystod oedran hon - eto, yn cynnwys swyddi arweinyddiaeth allweddol. Rydym yn gweithio tuag at gynllunio ar gyfer olyniaeth a datblygu strategaeth gadarn i reoli talent. Mae hyn yn adlewyrchu'r tuedd cenedlaethol, a nododd Adroddiad y Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024 gan Ofal Cymdeithasol Cymru bod **51.2%** o weithwyr Awdurdodau Lleol yn 46 oed neu hŷn. Gallai hyn awgrymu bod gweithwyr yn dod i weithio i Awdurdodau Lleol yn hwyrach yn ystod eu gyrfaoedd, tuedd rydym yn gobeithio ei newid gyda'r llwybrau gyrfa newydd.

Mae cynllun hyfforddi Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael i'r sector cyfan.

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol wedi cael mynediad at gyfres o gyfleoedd datblygu gyrfa drwy Brentisiaeth Uwch a Fframweithiau Dysgu a Datblygu eraill.

Lefelau 2 a 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion a Phlant)

Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel 4 Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel 5 Arwain a Rheoli Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) Lefelau 4 a 5

Rydym yn cefnogi gweithwyr cymdeithasol i gwblhau cymhwyster Ymarfer Iechyd Meddwl Cymhwysol drwy Brifysgol Caer a phartneriaeth GIMPC Swydd Gaer.

Addysgwyr Ymarfer ar gyfer Gwaith Cymdeithasol drwy Brifysgol Bangor a thrwy Brifysgol Wrecsam ar gyfer Addysg Ymarferol i Therapyddion Galwedigaethol.

Rydym wedi cyfrannu at y rhaglen dysgu a datblygu ranbarthol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer. Gweithio'n rhanbarthol gydag Addysg a Gofal Iechyd Cymru (AaGIC) i ddatblygu rhywbeth tebyg ar gyfer Therapi Galwedigaethol a chael mynediad at fodiwlau ar raglenni amrywiol.

Mynediad at Raglen Datblygu Rheolwyr Tîm, Rhaglen Darpar Reolwyr Canol a Rhaglenni Datblygu Rheolwyr Canol drwy Ofal Cymdeithasol Cymru.

Mynediad at Academi Wales https://academiwales.gov.wales/repository/discovery?sort=recent&categories=42d3b6f4-6978-4eb9-ba6b-4ef5d008e12a&strict=0 a CCInform.

**Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol**

Gan fod ymagwedd dim goddefgarwch at hiliaeth ar waith yng Nghyngor Sir Ddinbych, mae Penaethiaid Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant wedi cael hyfforddiant a gweithdai i uwch arweinwyr i ymgorffori'r camau gweithredu yn y cynllun mewn gwasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi penodi llysgennad diwylliannol sy'n gweithio gyda chyfoedion yng Nghymru gyfan i ddynodi arfer gorau a hyrwyddo trawsnewid.

Anogir y staff i gwblhau modiwl e-ddysgu Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae mwy o hyfforddiant yn cael ei gaffael ar gyfer y tîm rheoli ehangach i gefnogi staff i gael sgyrsiau agored a gonest am ddelio â hiliaeth. Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd mwy o waith yn cael ei wneud i sicrhau bod mwy o gamau gweithredu o'r Cynllun yn cael eu hymgorffori i ymarfer a byddwn yn monitro ein cynnydd gydag Adnodd Hunanasesu Dileu Hiliaeth ADSS.

## Adnoddau Ariannol

Mae sefyllfa derfynol 2025 / 2026 yn cael ei chrynhoi yn y tabl isod sy'n dangos bod Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion, yn cynnwys Digartrefedd yn tanwario yn erbyn eu cyllidebau.

| **2025 / 2026** | **Cyllideb** | **Gwariant Gwirioneddol** | **Gor / (Tan) wariant** |
|---:|---:|---:|---:|
| **Gwasanaethau Plant** | **£21,780,962** | **£21,182,509** | **-£598,454** |
| | | | |
| Gofal Cymdeithasol i Oedolion | £58,263,043 | £57,904,498 | -£358,544 |
| Digartrefedd | £5,063,056 | £4,729,107 | -£333,949 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd** | **£63,326,099** | **£62,633,606** | **-£692,493** |
| **Cyfanswm** | **£85,107,061** | **£83,816,114** | **-£1,290,947** |

Achosodd cost uwch pecynnau gofal  y Gwasanaethau Plant fwy o bwysau na'r disgwyl ar y gyllideb, yn bennaf oherwydd bod y cynnydd yn ffioedd darparwyr yn uwch, gan gynnwys rhai costau lleoliadau unigol drud iawn. Fodd bynnag, cafodd y pwysau hwn ei wrthbwyso ar ddiwedd y flwyddyn drwy symud tanwariant grant sylweddol.

Tanwariodd Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd hefyd yn erbyn yr adnoddau cynyddol a fuddsoddwyd yn 2025 / 2026; y rheswm pennaf am hyn oedd arian grant ychwanegol annisgwyl ar ddechrau'r flwyddyn ariannol mewn Gofal Cymdeithasol Oedolion, ac roedd costau llety dros dro a llety wedi'i brydlesu yn is na'r disgwyl mewn Gwasanaethau Digartrefedd.

Bob hydref mae rhagolygon ariannol yn cael eu diweddaru ar gyfer y blynyddoedd i ddod, sy'n cynnwys rhagdybiaethau am gynnydd mewn galw a chwyddiant, gyda'r nod o ddyrannu digon o adnoddau i fodloni'r costau cynyddol hyn. Unwaith eto, cyfrannodd y cynnydd mewn Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer 2025 / 2026 at gostau gofal uwch yn y dyfodol; fodd bynnag, roedd cynnydd o 5% yn sylweddol is na chynnydd y flwyddyn flaenorol o 10%.

Dyrannodd y Cyngor gyllideb ychwanegol i fodloni'r pwysau disgwyliedig hyn fel a ganlyn:

| ***Dyraniad Cyllideb Ychwanegol tuag at Bwysau 2025 / 2026*** | |
|---|---|
| *Gwasanaethau Plant* | £4,284,000 |
| *Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd* | £3,732,000 |
| ***Cyfanswm*** | **£9,696,000** |

Gan ystyried yr her ariannol sylweddol a wynebir gan y Cyngor cyfan a chydnabod y gofynion statudol, yn anffodus nid yw yr un o'r ddau Wasanaeth wedi eu heithrio rhag gostyngiadau yn y gyllideb. Er na phennwyd targedau arbed ar gyfer

Gwasanaethau Plant ar gyfer 2025 / 2026, mae nifer o gynlluniau ar y gweill i ostwng costau. Pennwyd targed arbed o £1.258 miliwn i Ofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd ar gyfer 2025 / 2026. Mae targedau arbed ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn debygol o gynyddu ac mae aelodau etholedig a swyddogion y tîm gweithredol yn rhan o'r broses hon.

Mae'r ddau wasanaeth dan bwysau parhaus i adolygu eu penderfyniadau yn ymwneud â chomisiynu er mwyn cyflawni'r un faint, ac weithiau mwy, gydag adnoddau cyfyngedig.

Mae trafodaethau mewn cyfarfodydd monitro'r gyllideb yn canolbwyntio fwyfwy ar gyllidebau dan bwysau, ac yn archwilio sut y gellir darparu gofal mewn ffyrdd amgen gan barhau i gyflawni canlyniadau i ddinasyddion am lai o gost.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i wynebu heriau ariannol cynyddol oherwydd y twf mewn chwyddiant ac oherwydd bod y galw yn uwch na'r cynnydd mewn cyllid, ac mae'r angen yn parhau ar bob adran i wneud ei rhan i ddynodi hyd yn oed mwy o ostyngiadau mewn pwysau ac arbedion dros y blynyddoedd nesaf.

# 3. Adran asesu perfformiad

## Pobl

**"Mae pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â dewis, llais a rheolaeth dros eu bywydau ac maent yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw."**

**"Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel gyda gweithlu medrus, cymwys sy'n cael ei gefnogi, yn gweithio tuag at weledigaeth a rennir."**

- CH/056: Cyfanswm y 'Cynigion Rhagweithiol' o eiriolaeth i blant yn ystod y flwyddyn – cafwyd 127 o gynigion rhagweithiol yn 2025 / 2026, sy'n ostyngiad o 4.5% ers 2024 / 2025 (133)
- CH/057: Cyfanswm y 'Cynigion Rhagweithiol' o eiriolaeth i blant yn ystod y flwyddyn lle darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol – gwnaed 24 atgyfeiriad am eiriolaeth o ganlyniad i'r cynnig rhagweithiol, 2 yn llai nag yn 2024 / 2025. O'r rhain, derbyniodd 14 o blant a phobl ifanc Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

- AD/013: Mae cyfanswm yr oedolion â chynllun gofal a chymorth ble mae eu hanghenion yn cael eu bodloni drwy Daliad Uniongyrchol wedi cynyddu o 127 yn 2024 / 2025 i 295 yn 2025 / 2026.
- AD/032: Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol oedd 125 ar gyfer 2025 / 2026, sy'n gynnydd o 3.3% ers 2024 / 2025 (121).
- AD/033: Cyfanswm nifer yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol ac y darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol oedd 100 o oedolion yn ystod 2025 / 2026, dim ond 2 yn llai nag yn 2024 / 2025.

Ar y cyfan, mae ein perfformiad yn erbyn ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi aros yn ei unfan yn 2025 / 2026 o'i gymharu â 2024 / 2025, gyda chynnydd / gostyngiad bach iawn mewn Gwasanaethau Oedolion. Mae'r cynnydd yn nifer y dinasyddion sy'n defnyddio Taliadau Uniongyrchol i reoli eu hanghenion gofal a chymorth yn rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i unigolion dros y ffordd maen nhw'n cyflawni eu canlyniadau a'r Hyn sy'n Bwysig iddynt.

Mewn Gwasanaethau Plant, rydym wedi gweld cynnydd o 15% mewn cysylltiadau, gyda gostyngiad bychan (4.5%) yn y rhai sy'n cael cynnig rhagweithiol o eiriolaeth. O'r 127 o gynigion, dim ond 24 gafodd cynnig eiriolwr proffesiynol annibynnol ac o'r rhain, derbyniodd 14 y cynnig. Mae hyn gyfystyr ag 11%.

**Mae dinasyddion eisiau bywyd, nid gwasanaeth**

Mae ein Un Pwynt Mynediad yn parhau'n bwynt cyswllt cyntaf hanfodol i ddinasyddion ym mhob cwr o Sir Ddinbych, yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i gefnogi pobl i fod yn wybodus, annibynnol ac i ofalu amdanynt eu hunain.

Yn 2025 / 2026, llwyddodd Un Pwynt Mynediad i atal tua 78% o 21,086 o gysylltiadau rhag bod angen atgyfeiriad at Ofal Cymdeithasol Oedolion, gan ddangos mor effeithiol ydoedd i ymyrryd yn gynnar ac atal.  Mae adborth gan ddinasyddion yn dangos gwerth sgyrsiau "Yr Hyn sy'n Bwysig" Un Pwynt Mynediad a'u gallu i gydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnig cymorth ymarferol ac emosiynol.

Cysylltodd unigolyn oedd yn wynebu cynni ariannol, problemau tai a phryderon iechyd meddwl ag Un Pwynt Mynediad mewn trallod. Gwrandawodd yr ymgynghorydd, gan roi sicrwydd, cefnogaeth wedi'i chydlynu ac atgyfeiriad at y tîm Anableddau Cymhleth, trefnu parsel bwyd brys drwy Lywiwr Cymunedol a chyfeirio at wasanaethau tai ac iechyd. Drwy'r dull cefnogol hwn, tawelodd yr unigolyn ac ymgysylltodd yn well ac roedd cefnogaeth briodol ar y gweill.

Mae Un Pwynt Mynediad yn parhau i esblygu i wella darpariaeth gwasanaethau. Yn ystod 2025 / 2026, roedd hyn yn cynnwys cefnogi cyflwyno Clinigau Annibyniaeth drwy reoli archebion, anfon hunanasesiadau cyn apwyntiad a chryfhau gwybodaeth ymgynghorwyr o addasiadau ac adnoddau cymunedol sydd ar gael.

**Symud gydag Urddas a Throi Dim Ond Unwaith**

Mae'r dulliau Symud gydag Urddas a Throi Dim Ond Unwaith yn symud oddi wrth ofal dwy law arferol tuag at ofal diogel, un llaw sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn pan fo'n briodol. Mae datblygiadau mewn cyfarpar ac ymarfer yn golygu y gall llawer o bobl gael cefnogaeth gydag urddas gyda llai o ofalwyr, sy'n gwella lles wrth gynnal diogelwch staff.

Yn ystod 2025 / 2026, mae Symud gydag Urddas wedi cael ei atgyfnerthu drwy bartneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a phenodi Therapydd Galwedigaethol pwrpasol. Mae hyn wedi gwella adolygiadau o becynnau gofal, wedi sicrhau rhyddhau'n fwy diogel o'r ysbyty, ehangu hyfforddiant i staff gofal a lleihau pwysau ar wasanaethau cymunedol. Bydd y gwaith yn parhau i hyfforddi asiantaethau ac adolygu gofal dwy law cyfredol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r dull Troi Dim Ond Unwaith yn cyd-fynd â Symud gydag Urddas, yn enwedig i bobl sy'n byw â dementia. Gan ei fod yn golygu llai o drin a llai o ofalwyr, gall Troi Dim Ond Unwaith olygu llai o bryder, trallod a gwrthwynebiad yn ystod gofal personol. Mae ymchwil cyfredol a rhannu ymarfer yn genedlaethol yn arwain at fwy o dystiolaeth ac ymwybyddiaeth. Gyda'i gilydd, mae Troi Dim Ond Unwaith a Symud gydag Urddas yn moderneiddio gofal dwy hyrwyddo urddas, diogelwch ac effeithlonrwydd, wrth wella profiadau i unigolion, teuluoedd a staff gofal.

Wedi ei asesu, penderfynwyd nad oedd Mr A bellach yn gymwys i gael cyllid Gofal Iechyd Parhaus yn 2025. Roedd yn cael pump galwad gofal dwy law y dydd, oedd yn costio'n ddrud. Gweithiodd y tîm Symud Gydag Urddas gyda darparwr gofal newydd i adolygu ei anghenion, gan ddefnyddio'r cyfarpar presennol a darparu cefnogaeth ymarferol a hyfforddiant i ofalwyr. Cafodd ei ofal ei leihau'n ddiogel i bedair galwad gofal un llaw y dydd, gan wella ei gyfranogiad at ei ofal, tarfu llai ar ei deulu a darparu gofal diogel, gydag urddas am lawer iawn llai o gostau.

**Mae'r Gymraeg yn bwysig i ni**

Mae ein Cefnogwyr y Gymraeg yn parhau i weithio yn y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd a Gwasanaethau Plant, i roi cyngor a chefnogaeth ar y Gymraeg. O ateb ymholiadau cyflym i brawf-ddarllen testun byr, mae'r Cefnogwyr yn cynnig arweiniad ac maent yn chwilio'n barhaus am ffyrdd o hyrwyddo a chryfhau proffil yr iaith yn y gweithle.

Mae un o'n Cefnogwyr y Gymraeg yn y Gwasanaethau Oedolion yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, gan helpu i sicrhau bod ei thîm yn gallu darparu'r gwasanaethau yn Gymraeg. Mae'n cael cyfarfodydd rheolaidd â Swyddog y Gymraeg i gefnogi safonau a rhannu syniadau ym mhob rhan o'r Cyngor, mae'n darparu cymorth cyfieithu i gydweithwyr ac yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd Mwy Na Geiriau, yn cynnwys fforymau rhanbarthol ledled Gogledd Cymru.

Bu hefyd yn cefnogi preswylydd oedd â dementia mewn cartref gofal, oedd wedi mynd yn ôl i ddefnyddio ei famiaith yn unig. Nid oedd yn deall fawr ddim Saesneg, yn enwedig dilyn cyfarwyddiadau yn Saesneg. Cefnogodd y cartref gofal, oedd ag ychydig iawn o staff oedd yn siarad Cymraeg, drwy helpu i addasu'r gofal drwy ddefnyddio adnoddau Gymraeg a chefnogaeth ag iaith syml, gan addasu'r cynllun gofal i gynnwys mathau penodol o raglenni teledu, llyfrau a geiriau Cymraeg syml y gallai'r staff eu dysgu.

Roedd y Bwrdd Strategol Mwy na Geiriau yn parhau i gyfarfod fesul chwarter drwy gydol 2025 / 2026 ac ymunodd Cefnogwyr y Gymraeg mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion â'r grŵp. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Bwrdd wedi elwa o gael nifer o

siaradwyr gwadd o wahanol sefydliadau yn cynnwys Swyddog y Gymraeg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hyn wedi caniatáu i ni glywed am arfer gorau i sicrhau bod y Cynnig Rhagweithiol yn rhan o'n harferion bob dydd.

Roedd staff y Gwasanaethau Plant wrth eu boddau'n cymryd rhan yn Eisteddfod y Staff eleni, mewn cystadlaethau ffotograffiaeth, dylunio, gwnïo a gwau. Bu pedwar aelod o'r Gwasanaethau Plant yn llwyddiannus yn eu categorïau.





**Llais a Rheolaeth - Eiriolaeth**

Rydym yn hyrwyddo eiriolaeth i sicrhau bod lleisiau dinasyddion yn cael eu clywed. Yn 2025 / 2026, cafodd 125 o ddinasyddion eiriolaeth annibynnol (121 yn y flwyddyn flaenorol). Gan gydnabod pwysigrwydd Eiriolaeth, rydym yn codi ymwybyddiaeth drwy ei gynnwys mewn cyfarfodydd sefydlu staff, drwy benodi hyrwyddwyr timau a threfnu sesiynau gloywi.

| |
|---|
| Cafodd Mr B gymorth eirioli i fynegi ei ddymuniad i ddychwelyd adref o ofal preswyl. Gwnaeth yr eiriolwr yn siŵr fod ei ddymuniadau'n cael eu mynegi, ei gefnogi mewn cyfarfodydd, ei helpu i ddeall gwybodaeth a chymryd rhan mewn penderfyniadau.<br><br>Llwyddodd Mr B i ddychwelyd adref gydag addasiadau allweddol a phecyn gofal ar waith, a dywedodd fod ei les wedi gwella a'i fod yn fodlon. |

Mae eiriolaeth yn elfen statudol allweddol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae llawer math o eiriolaeth yn cynnwys eiriolaeth ffurfiol, sef Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol, Eiriolwr Annibynnol Iechyd Meddwl a gwasanaethau eirioli a ariennir. Gall aelodau'r teulu ac eraill hefyd ddarparu eiriolaeth anffurfiol i gefnogi dinasyddion i fynegi eu safbwyntiau a'u barn, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Mae Rhaglen Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu hunan-eiriolaeth i bobl ag anableddau

dysgu. Mae’n gadarnhaol iawn bod grŵp hunan-eiriolaeth Sir Ddinbych yn datblygu a bod cynrychiolwyr yn cymryd rhan mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol.

**Dreigiau Sir Ddinbych**

Ffurfiwyd Dreigiau Sir Ddinbych ym mis Ionawr 2026 pan unwyd dau grŵp blaenorol.  Penderfynodd yr aelodau ar yr enw, y logo a’r neges “cynnau tân mewn cymdeithas”.  Er mwyn ymuno â’r grŵp, rhaid i bobl fod ag Anabledd Dysgu a byw yn Sir Ddinbych. Mae Dreigiau Sir Ddinbych yn rhoi cyfleoedd a lle i rannu profiadau o fyw ag anabledd dysgu a rhoi gwybodaeth i bobl am eu hanghenion. Fel grŵp, mae gan yr aelodau lais cryfach a mwy hyderus i eirioli drostynt eu hunain. Mae’r grŵp yn cyfarfod bob pythefnos, wyneb yn wyneb bob yn ail â dros Zoom. Mae’n bwysig bod llais y grŵp yn cael ei glywed i arwain at newid yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae aelodau Dreigiau Sir Ddinbych yn cynrychioli pobl ag Anableddau Dysgu yn Sir Ddinbych yn rhanbarthol, yn y grŵp North Wales Flyers (2 gynrychiolydd) ac yn genedlaethol ar grŵp Pobl yn Gyntaf Cyngor Cenedlaethol Cymru Gyfan (1 cynrychiolydd).  Mae cyfoedion yn ethol Cynrychiolwyr i wneud hyn, gan ddod â newyddion, diweddariadau, gwybodaeth a syniadau i aelodau gan grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol.

**Cynllunio sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn**

Nod y prosiect hwn yw hyrwyddo gofal a chymorth sy’n cael ei ddarparu mewn ffyrdd sy’n cydnabod ac yn adlewyrchu anghenion unigryw ac unigol ein dinasyddion. Llais y dinesydd; mae dewis a hoffter yn allweddol i ddarparu gofal a chymorth mewn ffordd sy’n parchu unigolion. Mae’r cydlynydd Cynllunio sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi bod yn gweithio gyda dinasyddion a darparwyr gofal mewn gwasanaethau anableddau dysgu i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth wir yn adlewyrchu anghenion unigol y dinesydd.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae’r Cydlynydd wedi cael 24 atgyfeiriad ychwanegol i weithio gyda dinasyddion, ochr yn ochr â’r 11 oedd ganddynt ers 2024 / 2025. Mae hefyd wedi darparu hyfforddiant i 164 o staff mewn 23 sesiwn hyfforddi.

Mae gwaith wedi bod ar y gweill gyda’r cydlynwyr Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn o Ynys Môn, Gwynedd a Wrecsam i hyrwyddo ac adfywio ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ym mhob cwr o Ogledd Cymru.

Mae'r Cydlynydd wedi parhau i weithio gyda dinasyddion i ddatblygu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynhaliodd ddarn byr o waith gyda 12 ohonynt i edrych ar eu dyheadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Arweiniodd hyn at Gynllunio Sawl Yfory gyda Gobaith gyda phob dinesydd, iddynt eu rhannu gyda'u hyfforddwyr gwaith. Mae gwaith wedi'i gwblhau i gefnogi dinasyddion i wneud diodydd poeth yn annibynnol hefyd, fel eu bod yn gallu bod yn fwy annibynnol. Mae'r cynllun ysgrifenedig wedi rhoi canllawiau clir i staff cefnogi dinasyddion ar ba gymorth sydd ei angen a phryd i adael i'r dinesydd barhau i wneud diodydd poeth yn annibynnol. Bellach mae gan y staff sail i barhau i ddatblygu sgiliau'r dinasyddion ac enghraifft i'w dilyn.

**Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol**

Mae Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol yn ffordd o weithio gyda dinasyddion sy'n parchu unigoliaeth a dewis, sy'n darparu cefnogaeth hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy weithio gyda dinasyddion i sicrhau bod trefniadau cefnogi yn llai cyfyngol. Mae Rhaglen Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd wedi arwain gwaith rhanbarthol i hyrwyddo'r dull Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol gyda gwasanaethau ac wedi hwyluso hyfforddiant a datblygu deunyddiau ac adnoddau.

Mae'r Cydlynydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi arwain hyn yn lleol gyda gwasanaethau anabledd dysgu ac mae hyn wedi arwain at ffurfio grŵp Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol Sir Ddinbych. Mae'r aelodaeth yn cynnwys dinasyddion, staff cymorth ac aelodau'r Tîm Anableddau Cymhleth. Mae'r grŵp hwn bellach wedi dechrau datblygu Cynllunio Sawl Yfory gyda Gobaith ar sut i ymgorffori a hyrwyddo Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol yn Sir Ddinbych, gan gydweithio ar hyd a lled iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, darparwyr a gyda dinasyddion.

Mae'r Cydlynydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wedi mynychu dwy gynhadledd Cymuned Ymarfer Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol, ac roedd gennym stondin yn un ohonynt i hyrwyddo Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn oedd yn dangos adnoddau sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac enghreifftiau o gynlluniau cyflawn a llwybrau. Cafodd un o ddinasyddion Sir Ddinbych ei gyfweld yn y digwyddiadau Cymuned Ymarfer Cefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol a siaradodd am yr hyn oedd yn ei ddeall am y cynllun a sut oedd pethau pan oedd ei staff cymorth yn dilyn ei gynlluniau neu beidio. Roedd hyn yn codi hyder y dinesydd i

siarad am y ffordd mae'n dymuno cael ei gefnogi a mynegi ei hun pan nad yw'r gefnogaeth fel mae'n dymuno iddo fod.

**Porth Gwasanaethau Plant**

Mae staff y Porth wedi parhau i weithio yn y swyddfa 3 diwrnod yr wythnos. Mae dwy swydd Uwch Ymarferydd wedi cael eu dyrannu i'r Porth i gryfhau goruchwyliaeth rheolwyr ar gofnodi atgyfeiriadau. Er bod un swydd wedi cael ei llenwi, bydd yr Uwch Ymarferydd arall yn dechrau ar 1 Mai 2026. Mae aelod ychwanegol o staff mewnbynnu data wedi cael ei roi ar y Porth i gefnogi'r gwaith o fewnbynnu atgyfeiriadau.

Er bod lefelau staffio'n cael effaith ar weithredu ar atgyfeiriadau, cynigiwyd cefnogaeth reoli ychwanegol. Bellach, mae'r Porth yn gweithredu'n llawn.

**Rhianta Corfforaethol**

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi llofnodi Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, ac mae'n llwyr ymroddedig i'w nodau ac egwyddorion. Mae'r Siarter yn rhoi cyfrifoldeb ar gyrff allweddol y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal yn derbyn cefnogaeth ac yn gallu cael mynediad at wasanaethau heb gyfyngiadau o ystyried eu profiadau bywyd.

Rydym yn addo trin pob unigolyn ifanc sydd â phrofiad o ofal gyda pharch ac urddas, ac i ddathlu pwy ydynt. Byddwn yn mynd ati i herio hiliaeth, gwahaniaethu ac anghydraddoldeb yn eu holl ffurfiau ac rydym wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol a chadarnhaol tuag at bobl ifanc anabl a phobl ifanc Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwiar (neu rai sy'n cwestiynu) (LHDTC+). Rydym yn cydnabod bod hunaniaeth a phrofiadau bywyd pobl yn wahanol a'u bod yn gallu gorgyffwrdd, ac rydym yn rhannu cyfrifoldeb i greu amgylcheddau diogel, cynhwysol, parchus a chadarnhaol i bawb. Byddwn yn gwrando arnynt ac yn gweithio ochr yn ochr â nhw i wneud yn siŵr bod y gefnogaeth yn hygyrch, diogel ac wedi'i siapio o amgylch yr hyn sy'n bwysig iddynt, wrth i ni eu cefnogi tuag at fod yn annibynnol.

**Cyfranogiad ac Ymgysylltiad**

Mae'r Clwb KIC (Plant mewn Gofal) yn fforwm a sefydlwyd ar gyfer pobl ifanc rhwng 7 a 15 oed yn Sir Ddinbych sy'n derbyn gofal ac yn byw â gofalwyr maeth. Maent yn cyfarfod yn ystod gwyliau hanner tymor ac yn cymryd rhan mewn ystod o

weithgareddau ac mae'n gyfle i rannu eu profiadau, dweud beth sy'n mynd yn dda, a beth hoffent ei newid.

Bu 2025 / 2026 yn flwyddyn brysur eto i aelodau Clwb Plant Mewn Gofal, a dyma rai o'r pethau y maent wedi bod yn eu gwneud:

- Roedd sesiwn mis Mai yn trafod bwyta'n iach, ym Mhantri Bach Ysgol Christchurch. Cafodd ei harwain gan yr Arweinydd Tîm Iechyd a Lles a Dietegydd Cymunedol, oedd yn helpu pawb i archwilio ffyrdd hwyliog a blasus o fwyta'n iach. Cafodd y grŵp gyfle i gymryd rhan mewn llawer o weithgareddau ymarferol, yn cynnwys prawf blasu gwahanol ffrwythau a gwneud eu ceirch dros nos eu hunain.  Roedd pawb yn gwenu (ac yn tynnu ystumiau gwirion!)  yn enwedig wrth fwyta ffrwyth y ddraig, nid y ffefryn gan bawb!
- Ym mis Awst, cafodd y grŵp gyfle i fynd ar daith haf wych i Gulliver's World, ble cafodd bawb lawer o hwyl yn archwilio'r reidiau ac atyniadau gyda'i gilydd.
- Er mwyn mynd i ysbryd arswydus ym mis Hydref, cafod bawb gyfle i fod yn greadigol a chael llawer o hwyl wrth gerfio pwmpenni a chynllunio eu gwaith Calan Gaeaf arswydus!





**Grŵp Sgiliau Byw'n Annibynnol** – Mae hwn yn grŵp ar gyfer pobl ifanc 16 mlwydd oed a hŷn, sy'n cyfarfod yn fisol gyda'r nod o'u cynorthwyo i ddod yn fwy annibynnol ac ennill sgiliau byw. Hwylusir y grŵp gan Ymarferwyr Gofal Cymdeithasol yn y Tîm 14+ o fewn y Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal.

Mae pob sesiwn yn canolbwyntio ar thema benodol a dyma'r hyn y buont yn ei drafod yn ystod 2025 / 2026:-

- Hawliau a Chyfrifoldebau.

- Arweiniad ymarferol ar olchi dillad, yn cynnwys deall labeli golchi a'u hystyr.
- Yr hyn maen nhw ei angen o'i gymharu â'r hyn maen nhw ei eisiau.
- Sesiwn gan y Nyrs Iechyd Plant sy'n Derbyn Gofal ar y Pasbort Iechyd.
- Ap Mind of my Own, ble buont yn cwblhau Datganiad Llwybr.
- Cwis am ffordd o fyw iach a bwyta.
- Helfa drysor o amgylch y Rhyl, yn cynnwys hanes lleol a ffeithiau difyr am yr ardal.
- Cyflwyniad i Gysylltiadau Gydol Oes

Mae'r gwasanaeth yn annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gweithgareddau amrywiol i helpu i siapio Gwasanaethau Plant.

Lleisiau'r plant / pobl ifanc – Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod lleisiau ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu clywed ar bethau sy'n bwysig iddynt. Mae nifer o adnoddau amrywiol ar gael iddynt ac fe'u hanogir i'w defnyddio. Gallant gael mynediad atynt a'u cwblhau wyneb yn wyneb gyda'u gweithiwr, drwy ddolen electronig, neu drwy sganio cod QR.

**Cynhadledd Amddiffyn Plant a Ffurflenni Adborth Plant sy'n Derbyn Gofal**

Er mwyn casglu barn y rhai sy'n bresennol ar y Gynhadledd Amddiffyn Plant a'r broses Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal, gofynnir i weithwyr proffesiynol, rhieni/gofalwyr a phobl ifanc lenwi ffurflen adborth y gellir bellach eu cwblhau naill ai wyneb yn wyneb gyda'u gweithiwr, drwy ddolen electronig, neu drwy sganio Cod QR.

Er mwyn casglu adborth ar Gynadleddau Amddiffyn Plant a Chychwynnol sy'n rhan o'r broses Amddiffyn Plant yn Effeithiol, mae ffurflen adborth bwrpasol wedi cael ei llunio a'i rhannu â phawb oedd yn bresennol er mis Ionawr 2026.

Anogir y rhai sy'n bresennol yn rheolaidd i roi eu barn.

**Arolygon Dweud eich Dweud**

Mae ystod o Arolygon Dweud eich Dweud ar gael i'w defnyddio i gasglu barn plant / pobl ifanc a rhieni ar yr effaith mae Gwasanaethau Plant ac Addysg wedi ei chael ar eu bywydau a pha mor ddefnyddiol yw neu oedd y gwasanaeth. Bydd y canlyniadau

o gymorth i wella'r gwasanaeth yn ogystal â chydnabod beth sydd wedi gweithio'n dda.

Yn 2025 / 2026, cafodd 50 o arolygon eu llenwi gan rieni / gofalwyr a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn teimlo bod eu safbwyntiau a'u dymuniadau'n cael eu clywed. Dywedodd 97% bod y gefnogaeth a gafwyd wedi gwneud gwahaniaeth.

**Diwedd Cyfnod Lleoliadau**

Ar ddiwedd cyfnod lleoliad (ni waeth beth fo achos y lleoliad yn dod i ben) anogir plant / pobl ifanc, gofalwyr maeth, rhieni a gweithwyr cymdeithasol i gwblhau arolwg er mwyn casglu safbwyntiau ynglŷn â phrofiadau defnyddwyr a staff o'r lleoliad a'r gwasanaethau y maent wedi eu cael. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn ffynhonnell bwysig ar gyfer nodi gwelliannau posibl o ran ansawdd.

**Plant ar eu Pennau eu Hunain yn Ceisio Lloches**

Rydym yn dal i gael lleoliadau drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol a fandadwyd. Mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i gefnogi'r garfan hon o bobl ifanc yn briodol. Fodd bynnag, er mwyn bodloni eu hanghenion diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol, rydym wedi comisiynu lleoliadau y tu allan i'r sir, sy'n golygu bod y bobl ifanc hyn wedi cael eu lleoli ymhell iawn o'n sir. Mae'n dal yn peri pryder i ni fod y pellter hwn yn eu gwneud yn fwy diamddiffyn ac yn golygu nad ydym yn gallu eu cefnogi mor effeithiol.

Er mwyn cynyddu'r gallu i gefnogi a datblygu atebion i ddarparu lleoliadau lleol, rydym yn parhau i weithio gyda Thîm Adsefydlu Byd-eang Sir Ddinbych, sydd wedi cefnogi ystod o deuluoedd ac unigolion sy'n ceisio lloches yn llwyddiannus. Mae heriau eraill wedi ymwneud â chomisiynu cyngor cyfreithiol i gefnogi pobl ifanc yn eu prosesau hawlio lloches ac apelio a pha mor ddigonol yw cyllid y Swyddfa Gartref, nad yw'n cynnwys cost lawn y gofal.  Mae hyn wedi rhoi rhagor o bwysau ar gyllidebau Awdurdodau Lleol.

**Arweinyddiaeth Effeithiol**

Ym mis Medi 2025, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) archwiliad gwerthuso perfformiad o Wasanaethau Oedolion Sir Ddinbych. Fel rhan o'u canfyddiadau, nododd AGC yn eu hadroddiad -

“Mae arweinwyr yn brofiadol, yn darparu arweinyddiaeth sefydlog ac yn adnabod eu gwasanaeth yn dda iawn. Mae ymarferwyr yn eu disgrifio fel arweinwyr gweledol, hawdd mynd atynt a chefnogol.”

Yn ogystal â - “Mae diwylliant cadarnhaol yn y gwasanaeth, wedi’i gefnogi’n gorfforaethol a gwleidyddol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn hyrwyddo cyfathrebu dwy ffordd ac ymagwedd drws agored. Mae yna ddiwylliant cryf o ran dysgu gyda chyfleoedd i fynychu hyfforddiant ac i elwa o ymarfer myfyriol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cymryd rhan weithredol mewn her adeiladol hefyd i gefnogi datblygiad.”

“Mae pwyslais rhagorol ar les staff. Cefnogir ymarferwyr ac arweinwyr drwy oruchwyliaeth ffurfiol ac anffurfiol reolaidd; gwneir addasiadau angenrheidiol i hyrwyddo anghenion personol a phroffesiynol.”

Mae’r ymagwedd hon yn cael ei hadlewyrchu ym mhob rhan o Wasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych ac mae gwerthoedd y Cyngor yn cael eu dangos yn ddyddiol.

**Gwerthoedd -**

- Balchder - Ein nod yw creu ymdeimlad o falchder o weithio i’n sefydliad.
- Undod - Rydym i gyd yn gweithio i’r un sefydliad.
- Parch - Ein nod yw trin pawb yn gyfartal ac yn deg, gan ddeall y bydd gan rai pobl farn a chredoau gwahanol i ni.
- Uniondeb - Ein nod yw rheoli ein hunain i gyflawni’r perfformiad gorau bosibl, sicrhau ymddygiad o safon uchel a chyflwyno delwedd gadarnhaol o Sir Ddinbych.

**Yr hyn sydd gennym ar y gweill ar gyfer 2026 / 2027**

Er mwyn sicrhau bod gennym wasanaethau cynaliadwy fydd yn bodloni galw cyfredol ac yn y dyfodol, bydd Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn parhau i drawsnewid gwasanaethau. Bydd y pwyslais ar sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau gwerth am arian sy’n bodloni anghenion pobl sy’n defnyddio ein gwasanaethau ac yn cyflawni eu hamcanion.

## Atal

**"Mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, gan sicrhau bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni i bobl."**

**"Mae cadernid o fewn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy gefnogi pobl y mae angen gofal a/neu gefnogaeth arnynt, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas."**

- AD/002: Nifer y cysylltiadau newydd ar gyfer oedolion a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth – yn ystod 2025 / 2026 darparwyd cyngor neu gymorth i 9026 o oedolion, mae hyn yn ostyngiad o 59 o ddinasyddion ers 2024 / 2025 (9085).
- AD/005: Cyfanswm yr asesiadau newydd – AD/005b: Lle'r oedd modd bodloni'r anghenion drwy unrhyw ddull arall, nifer yr asesiadau newydd yn ystod 2025 / 2026 oedd 9770, a bodlonwyd anghenion 5362 o'r rheiny drwy ddulliau eraill. Mae hyn yn 55%, yr un faint â'r llynedd.
- AD/010: Cyfanswm y pecynnau ail-alluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd 109, gostyngiad o 74 pecyn o'i gymharu â 2024 / 2025 (183)
- AD/011: Cyfanswm nifer y pecynnau ail-alluogi yn ôl canlyniad - gweler y tabl isod.

| | 2024 / 2025 | 2025 / 2026 | Gwahaniaeth Canrannol |
|---|---|---|---|
| Lleihau'r angen am gymorth | **35** | **24** | **Gostyngiad o 31%** |
| Cynnal yr angen am yr un lefel o gymorth | **24** | **20** | **Gostyngiad o 16%** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lliniaru'r angen am gymorth | **101** | **49** | **Gostyngiad o 51%** |
| Heb leihau na lliniaru'r angen am gymorth | **23** | **16** | **Gostyngiad o 30%** |

**Ailalluogi wrth y Drws Ffrynt - Ailalluogi o'r Maint Cywir**

Fel rhan o'n rhaglen drawsnewid ac ar gais ymarferwyr rheng flaen, dechreuodd Gofal Cymdeithasol i Oedolion gynllun peilot yn ne Sir Ddinbych i gyflwyno Ail-alluogi wrth y Drws Ffrynt. Mae hyn yn ein helpu i ymdrin ag anghenion sy'n newid ymhlith y boblogaeth hefyd, yn cynnwys rhyddhau'n gynt o'r ysbyty, mwy o gymhlethdod a mwy o lesgedd. Yn dilyn ymgynghori â staff, gwerthuso'r gwasanaeth a dysgu gan awdurdodau eraill yng Nghymru, cafodd y 'Model Ailalluogi Tri Philer' ei fabwysiadu i sicrhau bod dinasyddion yn cael y *gefnogaeth gywir, ar yr adeg gywir, yn y lleoliad cywir*.

Mae'r model yn dyrannu dinasyddion i un o dri llwybr yn seiliedig ar angen a'r potensial i wella:

- <u>Ailalluogi dan Arweiniad Therapi Galwedigaethol:</u> cefnogaeth ddwys, tymor byr i wneud y mwyaf o annibyniaeth
- <u>Gofal o'r Maint Cywir:</u> sefydlogi gofal hirdymor cymesur yn gyflym
- <u>Ailalluogi Preswyl:</u> cefnogaeth breswyl tymor byr i adennill sgiliau a diogelwch ar gyfer byw gartref

Syrthiodd dinesydd ag anabledd dysgu ysgafn i lawr y grisiau. Bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty gydag anaf drwg i'r cefn, a gafodd ei reoli'n geidwadol. Cyn syrthio, roedd hi'n byw'n annibynnol. Fodd bynnag, tra bu yn yr ysbyty, anghofiodd ei sgiliau, roedd yn symud llai a chollodd ei hyder.

Pan oedd yn barod i gael ei rhyddhau, argymhellwyd lleoliad preswyl i ddechrau.  Ond yn lle hynny, cynigiwyd lleoliad ailalluogi preswyl yng Nghysgod y Gaer am gyfnod cyfyngedig. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd gefnogaeth wedi'i chydlynu gan Therapi Galwedigaethol, Ffisiotherapi a'r Tîm Ailalluogi.

O ganlyniad i'r ymyrraeth hon wedi'i thargedu, llwyddodd i adennill ei hyder, gwella ei symudedd a sgiliau ymarferol a llwyddodd i ddychwelyd i fyw'n annibynnol yn ei chartref ei hun, gan osgoi'r angen am ofal preswyl hirdymor.

**Llyw-wyr Cymunedol a Phwyntiau Siarad -** ***Mae'r hyn sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni***

Mae Pwyntiau Siarad yn cael eu darparu mewn llyfrgelloedd ar hyd a lled y sir mewn partneriaeth â sefydliadau fel Sir Ddinbych yn Gweithio, Cyngor Ar Bopeth Sir Ddinbych a gwasanaethau gwirfoddoli. Maen nhw'n cynnig cefnogaeth wyneb yn wyneb i breswylwyr gan Lyw-wyr Cymunedol, yn canolbwyntio ar y pethau pwysicaf wrth hyrwyddo lles, annibyniaeth a chymunedau cryfach.

Rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026, cafodd 923 eu cefnogi ac ni fu'n rhaid atgyfeirio 95% (880) ohonynt at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhaliwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol 10 wythnos, gyda chefnogaeth y Tîm Cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth ac fe'i gwelwyd dros 50,000 o weithiau.

Daeth 25 o bartneriaid ynghyd ar gyfer digwyddiad i ddathlu 10 mlynedd ym mis Mehefin 2025, ac roedd BIPBC yn argymell partneriaethau ehangach. Llwyddwyd i sicrhau cyllid ychwanegol hefyd i gynhyrchu mwy o badiau presgripsiwn, bonyn y gall Meddyg Teulu ei rwygo i ffwrdd a'i roi i ddinasyddion yn ystod apwyntiadau.




**Llun i Gwener 10am - 12.30pm Monday to Friday**

Ac eithrio Gwyliau Banc / Except for Bank Holidays

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Llun Monday | Llyfrgell **Llanelwy / St Asaph** Library | |
| Dydd Mawrth Tuesday | Llyfrgell **Y Rhyl / Rhyl** Library | Llyfrgell **Rhuthun / Ruthin** Library |
| Dydd Mercher Wednesday | Llyfrgell **Dinbych / Denbigh** Library | Llyfrgell **Corwen** Library |
| Dydd Iau Thursday | Llyfrgell **Llangollen** Library | |
| Dydd Gwener Friday | Llyfrgell **Prestatyn** Library | Llyfrgell **Rhuddlan** Library |

Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth frys a hirdymor, fel y dangoswyd yn achos Mr A, gan ymdrin ag anghenion brys megis bwyd, tai a budd-daliadau wrth hyrwyddo sefydlogrwydd ac annibyniaeth. Mae cyfranogiad parhaus Gwirfoddolwyr Ar Ymyl Gofal wedi cryfhau'r capasiti ac wedi ychwanegu profiad bywyd gwerthfawr.

Rhannodd gwirfoddolwr Ar Ymyl Gofal cymaint mae hi'n teimlo ei bod yn cael ei gwerthfawrogi a'i chefnogi. Mae'n dal i helpu eraill gyda ffurflenni ac yn darparu cwmnïaeth, sydd o fudd iddi hi ei hun a'r rhai mae hi'n eu helpu.

Aeth Mr A i Bwyntiau Siarad pan oedd yn ddigartref yn dilyn profedigaeth. Nid oedd ganddo fwyd nac incwm a chafodd gymorth ar unwaith gyda bwyd, tai a cheisiadau am fudd-daliadau, yn cynnwys cefnogaeth i lenwi ffurflenni oherwydd nam ar ei olwg. Roedd y gefnogaeth barhaus yn cynnwys pethau hanfodol, mynediad at fwyd a help i ailgysylltu â gwasanaethau. Gwellodd ei sefyllfa ar ôl cael Credyd Cynhwysol.

**Clinigau Annibyniaeth yn byrhau amseroedd aros**

Dechreuodd y Clinigau Annibyniaeth a lansiwyd ym mis Medi 2025, yn Neuadd y Sir, Rhuthun gyda sesiynau bob pythefnos bob yn ail rhwng Rhuthun a Chanolfan Dydd Hafan Deg, y Rhyl. Maen nhw'n cynnig asesiadau cyflym i ddinasyddion sy'n cael trafferth gydag ymolchi a gofal personol ac yn rhoi cyfle iddynt weld a defnyddio cyfarpar, ac yn dynodi'r rhai a allai fod angen addasiadau mawr.

Mae'r fenter yn dilyn adolygiad oedd yn dangos bod pobl yn aros yn hir (dros 8 mis yn aml) am asesiadau ymolchi, ac yn aml iawn dim ond cyfarpar syml oedd ar lawer o bobl ei angen. Roedd hyn yn achosi rhwystredigaeth ac yn dangos bod angen dull mwy effeithlon.

Datblygwyd y clinigau gan dîm o Therapyddion Galwedigaethol o bob cwr o'r sir, yn cynnwys y broses a sefydlu'r cyfarpar. Mae apwyntiadau'n cael eu trefnu drwy Un Pwynt Mynediad ac mae canlyniadau'n seiliedig ar angen - yn amrywio o ddarparu cymorth syml ar unwaith (e.e. byrddau cawod) i gyngor a gwiriadau cymhwysedd ar gyfer addasiadau mawr megis cawodydd gyda mynediad gwastad.

Mae hyn wedi lleihau rhestrau aros yn sylweddol ac mae'n sicrhau bod y rhai sy'n aros eisoes wedi cael eu hasesu a bod arnynt angen cymorth sylweddol, ac mae cymorth dros dro ar gael.

Ers pan gafodd ei lansio hyd at ddiwedd mis Mawrth 2026, aeth 33 o ddinasyddion i'r clinigau a chael budd ohonynt.

| |
|---|
| Adborth gan ddinesydd: "Rydym yn ddiolchgar iawn am y cymorth gennych chi heddiw. Yn 80 oed, gall hyd yn oed problemau bach fod yn anodd, a daethom oddi yno'n teimlo bod cymorth ar y ffordd." |

**Micro-ddarparwyr**

Mae micro-ddarparwyr yn dal i chwarae rhan bwysig i gynyddu dewis, rheolaeth a chyfleoedd ar gyfer cymorth yn y gymuned i ddinasyddion ledled Sir Ddinbych. Drwy ddulliau hyblyg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mae micro-ddarparwyr yn cefnogi dinasyddion i barhau'n annibynnol ac yn eu cartrefi eu hunain yn hirach.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2026, roedd 93 o ficro-ddarparwyr yn gweithredu yn Sir Ddinbych, yn cefnogi tua 340 o ddinasyddion gydag ystod eang o wasanaethau yn cynnwys cwmnïaeth, mynediad cymunedol, seibiant, gofal personol, cymorth yn y cartref a gweithgareddau lles. Yn ystod y flwyddyn, mae'r pwyslais wedi bod nid yn unig ar gynyddu nifer y darparwyr ond hefyd cryfhau sicrwydd ansawdd a sicrhau bod y rhaglen yn parhau'n gadarn, cynaliadwy ac yn gadarn yn gyfreithiol.

Mae datblygiadau allweddol yn ystod 2025 / 2026 wedi cynnwys parhau i weithredu proses flynyddol 'MOT' Micro-Ddarparwyr a chyflwyno'r Cod Ymarfer Da. Mae'r datblygiadau hyn wedi cryfhau trefniadau llywodraethu, hyrwyddo cefnogaeth ddiogel, o ansawdd uchel a sicrhau disgwyliadau a safonau cliriach i ddarparwyr yn gweithredu yn y rhaglen.

Mae adborth gan ymarferwyr a gweithwyr cymdeithasol yn parhau i ddangos effaith gadarnhaol Micro-ddarparwyr, yn enwedig i ddarparu opsiynau cymorth yn y gymuned na allai gwasanaethau traddodiadol eu cynnig bob amser. Mae ymarferwyr wedi tynnu sylw at werth Micro-ddarparwyr i gefnogi dulliau ataliol, lleihau

Roedd un enghraifft yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gofalwr hirdymor yn cefnogi ei gŵr sydd wedi byw â chlefyd Parkinson ers dros 25 mlynedd. Oherwydd straen, pryder a blinder cynyddol ac iechyd corfforol oedd yn dirywio oherwydd ei chyfrifoldebau gofalu, roedd perygl sylweddol y byddai'r gofalwr yn methu. Drwy gyfuniad hyblyg o gefnogaeth gan Ficro-ddarparwyr a Chynorthwy-ydd Personol, roedd y gofalwr yn gallu mynd i apwyntiadau meddygol, adennill rhywfaint o annibyniaeth y tu allan i'r cartref a chanolbwyntio ar wella ei lles ei hun, wrth sicrhau bod ei gŵr yn dal i gael ei gefnogi'n ddiogel yn y cartref. Roedd yr hyblygrwydd a gynigiwyd drwy Ficro-ddarparwyr yn golygu bod gofal yn gallu cael ei deilwra o amgylch trefn ac anghenion newidiol y teulu, gan helpu'r gŵr a'r wraig aros yn eu cartref gyda'i gilydd a gwella sefydlogrwydd yn y tymor hir. Yn dilyn adolygiad, cafodd y gefnogaeth ei lleihau'n llwyddiannus i lefel gynaliadwy wrth barhau i fodloni canlyniadau i'r gofalwr a'r sawl sy'n cael y gofal.

arwahanrwydd cymdeithasol, aros yn annibynnol a helpu gofalwyr barhau â'u gwaith gofalu'n ddiogel.

**Cydnabod a Gwerthfawrogi Gofalwyr Di-dâl**

Mae Cyngor Sir Ddinbych a'i bartneriaid wir yn gwerthfawrogi gofalwyr ac yn cydnabod y pwysau cynyddol sy'n eu hwynebu oherwydd y galw, anghenion cymhleth a chostau byw cynyddol. Mae cefnogi gofalwyr di-dâl i aros yn iach ac i ofalu am eu lles yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i wrando ar eu profiadau a gwella canlyniadau wrth fodloni dyletswyddau statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Rydym yn gwella cefnogaeth drwy waith partneriaeth, ymyrraeth gynnar, atal a dulliau'n seiliedig ar gryfder i feithrin gwytnwch a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau ffurfiol.

Rhoddwyd taleb Pontio'r Bwlch i roi seibiant i ofalwr a chwiliwyd am Ficro-ddarparwr pan oedd y cyfrifoldebau gofalu oedd ganddo am ei wraig yn mynd yn ormod. Er bod ei fab yn helpu, roedd y tasgau dyddiol, siopa a’r gofal a chymorth roedd yn ei roi i’w wraig yn cael effaith arno. Bu’n bosibl iddynt gael garddwr fel eu bod yn gallu eistedd yn yr ardd a gwrando ar yr adar yn canu.

Mae’n gwneud yn siŵr ei bod yn cael cawod ac yn nôl ei dillad yn barod iddi. Mae’r sgwrs yn ailadroddus iawn a gall fod yn rhwystredig gyda’r un cwestiynau. Bellach, mae ganddynt arddwr hefyd gan fod yr ardd yn mynd yn ormod iddo. Mae’r ddau’n mwynhau eistedd yn yr ardd a gwrando ar yr adar yn canu. Fodd bynnag, pryder mwyaf y gŵr oedd y straen oedd arno ac os byddai ef ei hun yn mynd yn sâl, pwy fyddai’n gofalu am ei wraig.

Mae’r Micro-ddarparwr yn mynd â’r wraig allan ddwywaith yr wythnos, mae’n cael amser gwych ac mae’n cael ymweld â llawer o wahanol lefydd, megis siopa, mynd i weld ceffylau ac i gaffis. Yn dilyn llwyddiant y seibiant, gwnaed hyn yn drefniant parhaol, drwy daliad uniongyrchol, sydd wedi bod yn help mawr i’r ddau ohonynt. Mae hyn yn caniatáu i’r gofalwr gynllunio gweithgareddau iddo’i hun gan wybod bod ei wraig yn ddiogel, gyda chwmni, ac mae’n mynd am dro neu’n cael amser i bendwmpian cysgu. Mae’r gefnogaeth hon wedi gwella lles y ddau’n sylweddol, gan roi amser i’r gofalwr orffwys a chael ei gefn ato. Mae’n dweud bod y gwahaniaeth yn “amhrisiadwy”.

Roedd **gwelliannau allweddol yn 2025-2026 yn cynnwys** symleiddio prosesau a chryfhau’r bartneriaeth gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC), yn ogystal â gwella cydweithio amlddisgyblaethol i sicrhau cefnogaeth gyfannol, yn y gymuned.

Fel arfer, darperir cefnogaeth a mynediad gan Un Pwynt Mynediad, sy’n rhoi cyngor, yn cyfeirio ac yn darparu cysylltiadau at wasanaethau ataliol, hyfforddiant, cefnogaeth gan gymheiriaid a phresgripsiynu cymdeithasol. Mae pwyslais wedi bod ar ddatblygu hyfforddiant i’r gweithlu ac ymwybyddiaeth o anghenion gofalwyr yn yr holl wasanaethau hefyd.

O ran seibiant a chefnogaeth ychwanegol, gwelwyd mwy o bwyslais ar egwyliau a seibiant byr, yn cynnwys hyrwyddo cynllun Llywodraeth Cymru, Taliadau Uniongyrchol ac ehangu micro-ddarparwyr a gwirfoddolwyr. Ynghyd ag ariannu

swyddi newydd a ddatblygwyd gyda Sir Ddinbych yn Gweithio i ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu i ofalwyr.

**Y blaenoriaethau wrth symud ymlaen i 2026 / 2027:**

- Gwella dulliau cofnodi data a chysylltu gofalwyr â'r rhai maen nhw'n gofalu amdanynt.
- Cryfhau partneriaethau rhwng gwasanaethau ac aseswyr Gofalwyr.
- Paratoi i roi Mosaic ar waith.
- Parhau i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o brosiectau cenedlaethol.

**Tîm Adsefydlu yn y DU**

Mae'r Tîm Adsefydlu yn cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn Sir Ddinbych i ailadeiladu eu bywydau, yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys yr agenda Cenedl Noddfa ac atal. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar gefnogaeth gynnar sy'n helpu pobl deimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cynnwys ac yn gallu byw'n annibynnol, gan leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys ymhen amser.

Mae'r tîm wedi sicrhau bod atal wrth wraidd eu hymagwedd a gwelwyd llai o unigedd. Mae digwyddiad Cyfeillion Cinio wythnosol yn dod â theuluoedd a phreswylwyr hŷn at ei gilydd, gan wella sgiliau Saesneg a lleihau unigrwydd. Mae hyn wedi arwain at les emosiynol gwell i bawb.  Mae cydweithio wedi caniatáu i ni gyflwyno prosiect a ariennir gan y Swyddfa Gartref gyda therapyddion creadigol sy'n darparu cefnogaeth iechyd meddwl cynnar ac yn helpu i osgoi argyfwng.

**Y tîm Iechyd Meddwl a Lles**

Mae tîm Iechyd Meddwl a Lles Sir Ddinbych yn dîm ymroddgar o weithwyr cefnogi sy'n helpu dinasyddion sy'n cael anawsterau iechyd meddwl fod yn fwy hyderus ac annibynnol. Darperir y gefnogaeth yng nghartrefi dinasyddion a'r gymuned ehangach ac mae'r astudiaeth achos a ganlyn yn dangos y gwaith a wneir i helpu dinasyddion oresgyn rhwystrau a gwella eu lles cyffredinol.

Cafodd dinesydd oedd yn profi gorbryder a thrallod yn gysylltiedig â thrawma ei gyfeirio at y tîm Lles, ar ôl datgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl. Yn dilyn asesiad, ymdriniodd cynllun cefnogi cydlynus nifer o heriau yn cynnwys gorbryder, iselder, unigedd, hunan-esgeulustod ac anawsterau ariannol.

Roedd y gefnogaeth yn canolbwyntio ar ail-feithrin hyder, ailgysylltu â gwasanaethau iechyd a chael mynediad at gyngor ariannol. Gyda chydsyniad, helpodd y tîm y dinesydd ailgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl, yn cynnwys sicrhau apwyntiad seiciatryddol.

Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd parhaus, trefnwyd cefnogaeth mwy hirdymor drwy ficro-ddarparwr ochr yn ochr â chynnwys gwaith cymdeithasol. Dywedodd y dinesydd fod yr ymyrraeth wedi newid ei fywyd, sy'n tynnu sylw at effaith gadarnhaol sylweddol cefnogaeth brydlon, gydlynus.

**Ymagweddau Dilyniannol at Dai â Chymorth (YDDC)**

Mae prosiect Ymagweddau Dilyniannol at Dai â Chymorth (YDDC) yn fenter ar y cyd rhwng Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn datblygu modelau integredig a chydlynus newydd o ddarparu gwasanaeth sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu, Awtistiaeth a / neu Anaf i'r Ymennydd i symud tuag at fod yn fwy annibynnol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar gynllunio i symud ymlaen o'r trefniadau byw presennol, yn cynnwys cartref y teulu, byw yn y gymuned neu leoliadau preswyl i lety mwy priodol, llai cyfyngedig.

Mae'r Therapydd Galwedigaethol YDDC yn gweithio'n rhagweithiol gyda dinasyddion a'u teuluoedd i gynllunio a nodi llety byw â chymorth lleol, cost effeithiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel dewis arall i leoliadau tymor byr y tu allan i'r sir neu ofal preswyl. Un o brif bwysleisiau'r prosiect yw gwaith ataliol, a darperir mewnbwn arbenigol yn gynnar i leihau'r perygl o wneud penderfyniadau adweithiol neu mewn argyfwng.

Yn ystod y flwyddyn adrodd hon, mae prosiect YDDC wedi cefnogi pum dinesydd i symud i lety â chymorth mwy priodol neu i bontio o'r cartref i leoliad yn y gymuned. Drwy'r gwaith hwn, mae'r prosiect wedi atal anghenion rhag dwysau'n ddiangen a lleihau dibyniaeth ar ddarpariaeth fwy dwys neu breswyl.

Mae mewnbwn y Therapydd Galwedigaethol YDDC wedi bod yn rhan annatod o'r canlyniadau hyn, drwy asesiadau therapi galwedigaethol uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy gasglu data am anghenion tai yn systematig a'u paru pan fydd llety gwag addas yn cael eu dynodi. Yn sail i'r holl weithgarwch mae nodau lles wedi'u dynodi gan bob dinesydd, gyda phwyslais clir ar hyrwyddo annibyniaeth, dewis a chynnydd tuag at drefniadau byw llai cyfyngol.

**Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol**

Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddangos ymagwedd ataliol gref drwy ddarparu cyfarpar cymunedol yn brydlon gyda'r nod o gefnogi unigolion i gadw'n ddiogel yn y cartref a lleihau'r galw ar wasanaethau acíwt.  Mae hyn yn cynnwys danfon cyfarpar rhag i bobl orfod mynd i'r ysbyty, drwy drefn safonol a brys, ynghyd â darparu llawer iawn o gyfarpar yn y gymuned i hyrwyddo annibyniaeth a lleihau'r perygl o ddirywio.

Cefnogir ymarfer ataliol ymhellach drwy drefniadau gwasanaethu a chynnal a chadw cadarn, yn cynnwys cynnal profion diogelwch yn rheolaidd ac adolygu cyfarpar yn barhaus yn y gymuned. Mae'r mesurau hyn yn sicrhau bod cyfarpar yn dal yn ddiogel, dibynadwy ac yn addas i bwrpas, gan helpu i liniaru risg ac osgoi derbyniadau y gellir eu hosgoi i'r ysbyty.

**Dileu Elw o ofal plant sy'n derbyn gofal**

Roedd rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys gweledigaeth ar gyfer trawsnewid gwasanaethau plant, a oedd yn cynnwys llai o blant yn mynd i ofal yr awdurdod lleol, plant yn derbyn gofal yn agos at eu cartref, a mwy o gapasiti ac amrywiaeth o ofalwyr maeth. Roedd hefyd yn cynnwys ymrwymiad clir i gael gwared ar elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.

Ar 24 Mawrth 2025, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 yn gyfraith yng Nghymru. Mae Deddf 2025 yn cynnwys darpariaethau a fwriedir i gyfyngu tynnu elw gan ddarparwyr gwasanaethau cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu. Gelwir y rhain yn 'wasanaethau plant cyfyngedig'.

Mae Deddf 2025 yn amlinellu cyfres o drefniadau, y bwriedir i rai ohonynt ddod i rym o 1 Ebrill 2026 ymlaen, a fydd yn y pen draw yn cyfyngu ar ddarpariaeth y gwasanaethau hyn (ac eithrio darpariaeth awdurdodau lleol) i endidau 'nid-er-elw' sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). I fod yn endid 'nid-er-elw' cydnabyddedig, rhaid i ddarparwr: fod ag amcanion neu ddibenion sy'n

ymwneud yn bennaf â lles plant (neu unrhyw fudd cyhoeddus arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru) a gweithredu o dan un o 4 math o ymgymeriad: cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau, sefydliad corfforedig elusennol, cymdeithas gofrestredig elusennol, cwmni buddiant cymunedol cyfyngedig drwy warant heb gyfalaf cyfrannau.

Mae’r holl fodelau nid-er-elw hyn sy’n cael eu nodi yn Neddf 2025 yn bodloni’r egwyddor na ddylid talu difidendau i gyfranddalwyr neu aelodau ac y dylid ail-fuddsoddi unrhyw wargedion masnachu yn y gwasanaeth (gan gynnwys adeiladu cronfeydd priodol wrth gefn a gwariant cyfalaf).

Adlewyrchir y rhaglen hon yn Strategaeth Gomisiynu Lleoliadau Sir Ddinbych, ble mae’r uchelgais i leihau’r ddibyniaeth ar ddarparwyr lleoliadau allanol yn cael ei fynegi. Yn y pen draw, ein huchelgais yw bod llai o blant yn cael eu derbyn i’r system ofal a’u bod yn gadael y system ofal pan fo’n ddiogel a phriodol i wneud hynny. I gefnogi’r uchelgais hon, rydym wedi datblygu ystod o wasanaethau ataliol a chefnogi yn cynnwys

- Cymorth Ar Ymyl Gofal, gan gynnig ystod o ymyriadau therapiwtig i atal symud tuag at ofal
- Ehangu cymorth i blant, a'r gofalwyr, sy'n destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig neu Orchymyn Goruchwylio.
- Eiriolaeth rhieni sy'n cefnogi rhieni i gael mynediad at yr atebion amlasiantaeth sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i gefnogi eu plant yn ddiogel
- Sefydlu canolfan asesu Bwthyn y Ddôl a'r Tîm Amlddisgyblaeth
- Modelau Cyfathrebu Cydweithredol ac Amddiffyn Plant Effeithiol o ddarparu gwasanaethau, gan sicrhau dull sy'n seiliedig ar gryfderau o weithio gyda theuluoedd.

Fel rhan o Brosiect Trawsnewid Sir Ddinbych, ac i ymateb i’r agenda nid er elw, mae dau ddarn o waith wedi bod ar y gweill yn y Gwasanaethau Plant ac Addysg, un yn canolbwyntio ar wella recriwtio a chadw gofalwyr maeth, sy’n cynnwys gwella ein cynnig craidd, a’r ail ar ddatblygu cartref grŵp bychan.

Nid yw Sir Ddinbych yn gweithredu cartref plant preswyl ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni ein dyletswydd o ran digonolrwydd dan Ddeddf 2025 a chynorthwyo â

gwireddu ein huchelgais i ofalu am ein plant yn Sir Ddinbych ac felly’n nes at eu cymunedau cartref, mae cynlluniau i ddatblygu darpariaeth fewnol ar y gweill.

Mae eiddo addas wedi’i ganfod, a fydd yn darparu cartref grŵp bychan ar gyfer hyd at dri o blant a phobl ifanc. Caiff y model hwn o ddarpariaethau bach ei gydnabod fel y mwyaf addas i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i blant.

**Gweithgareddau Maethu Cymru Sir Ddinbych 2025-26**

Mae 22 Awdurdod Lleol ledled Cymru wedi dod ynghyd i ffurfio rhwydwaith cenedlaethol o arbenigedd maethu lleol o'r enw Maethu Cymru / Foster Wales. Gyda phwyslais clir ar gael effaith ar lefel genedlaethol, i gydweithio â'i gilydd a chyda Gofalwyr Maeth ac i adeiladu dyfodol gwell i blant lleol.

Mae gwaith gyda Maethu Cymru Sir Ddinbych yn parhau gyda dull cyson ac effeithiol o recriwtio a marchnata ar sail genedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb gyda chyflogwyr rhanbarthol a darpariaethau addysg yn ogystal â chyfleoedd a nodwyd yn unigol fel archfarchnadoedd. Mae hysbysebu mewn safleoedd lleol perthnasol yn parhau, yn ogystal â'r pwyslais ar hysbysebu ar y Cyfryngau Cymdeithasol a chodi ymwybyddiaeth. I Faethu Cymru Sir Ddinbych, y Cyfryngau Cymdeithasol fu'r offeryn mwyaf effeithiol ar gyfer annog ymholiadau, tra bod gweithgareddau marchnata eraill yn cynnig dull ymgysylltu cymunedol a gynlluniwyd i fwydo'r neges Maethu'n raddol. Mae'r strategaeth Genedlaethol wedi arwain at gynnydd mewn diddordeb yn y cyfryngau cenedlaethol gyda hysbysebion teledu, ymgyrchoedd radio, postiadau cyfryngau cymdeithasol a blogiau sy'n portreadu 'straeon go iawn' gan blant sy'n derbyn gofal a gofalwyr maeth.

Mae'r Big Welcome yn offeryn sy'n cynnig cyfle i blant a phobl ifanc weld y lleoliad y maent yn mynd iddo mewn amser real ar ffôn symudol eu Gweithwyr Cymdeithasol - mae hwn yn gam enfawr ymlaen wrth gefnogi'r bobl ifanc i 'weld' ble maent yn mynd i aros a gobeithio lleihau rhai o'r pryderon ynghylch mynd i le newydd.

Fel rhan o’r prosiect Rhaglen Drawsnewid, rhoddwyd tasg i’r holl wasanaethau, o dan ein dull Un Cyngor, i ystyried pa gefnogaeth y gallent ei chynnig i ofalwyr maeth presennol fel rhan o wella cyfraddau cadw, a gofalwyr maeth newydd er mwyn rhoi hwb i recriwtio. Mae’r gwaith hwn wedi arwain at ddatblygu cynnig craidd hael ar gyfer gofalwyr maeth cymeradwy Sir Ddinbych sy’n cynnwys; Polisi AD Cefnogi Maethu - rhoi 5 diwrnod ychwanegol o absenoldeb ar gyfer ymrwymiadau maethu,

cynllun gostyngiad Treth y Cyngor, parcio am ddim i ofalwyr maeth mewn meysydd parcio arhosiad hir, mynediad am ddim i safleoedd treftadaeth Sir Ddinbych, trolibocs ychwanegol am ddim ar gyfer aelwydydd mwy sy’n maethu, tanysgrifiad bin gwastraff gwyrdd am ddim, ac aelodaeth campfa a nofio HSDd am ddim i aelwydydd sy’n maethu.

Mae’r Rhaglen Drawsnewid hefyd wedi cymeradwyo prosiect a fydd yn rhoi mwy o gymorth â recriwtio drwy alluogi marchnata digidol wedi’i dargedu a fydd yn cyrraedd grwpiau demograffig penodol.

**Cefnogaeth Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig (GGA)**

Mae'r Gwasanaeth GGA wedi'i ddatblygu ymhellach gyda chefnogaeth ychwanegol i unigolion a sefydlu grwpiau cefnogi. Cynhelir boreau coffi rheolaidd i hyrwyddo cefnogaeth gan gymheiriaid, a llunnir cylchlythyr rheolaidd. Cwblheir adolygiadau blynyddol o gynlluniau cefnogi ac mae gweithwyr cefnogi y GGA ar gael ar gyfer darnau penodol o waith ac ar gyfer cyngor a chanllawiau cyffredinol. Mae’r tîm wedi bod yn ehangu drwy ddefnyddio arian grant.

**Gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar - Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg**

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwneud cynnydd rheolaidd a chyson, gan gynnal sefydlogrwydd mewn gwasanaethau craidd wrth fwrw ymlaen â datblygiadau allweddol. Mae cynnydd wedi bod o un chwarter i’r nesaf, gyda phwyslais cryf ar gynnal ansawdd, cryfhau partneriaethau a pharatoi at y cyfnod darparu nesaf.

Mae darpariaeth gofal plant wedi parhau’n gyson ac mae galw mawr amdano yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg. Ochr yn ochr â chynnal y lleoedd presennol, rydym wedi cefnogi’r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg fesul cam wrth ymateb i ehangu’r cymhwysedd. Roedd gofyn cynllunio’n ofalus a chydlynu’n agos i sicrhau ein bod yn barod heb beryglu’r ansawdd. Mae’r timau wedi parhau i ganolbwyntio ar ddarparu amgylcheddau diogel, meithringar ac mae adborth gan deuluoedd yn dal i dynnu sylw at berthnasoedd cadarnhaol, cyfathrebu da a hyder yn y gofal a ddarperir.

Mae darpariaeth Teuluoedd yn Gyntaf wedi parhau i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i’r teulu cyfan. Mae nifer yr atgyfeiriadau wedi parhau’n gyson ac mae tystiolaeth gynyddol bod teuluoedd yn ymgysylltu’n gynharach. Mae llwybrau rhwng gwasanaethau’n dod yn gliriach, gan helpu teuluoedd i gael cefnogaeth wedi’i chydlynu yn hytrach nag ymdrin â gwasanaethau ar wahân. Mae cynllunio ar y cyd

rhwng timau wedi gwella, gan arwain at gynlluniau cefnogi cydlynol a chanlyniadau cliriach.

Mae ein timau Datblygiad Iaith Cynnar wedi ymateb yn dda i'r cynnydd yn y galw sy'n gysylltiedig ag ehangu Dechrau'n Deg. Mae sgrinio a gwaith adnabod cynnar wedi parhau'n gyson, ac mae ymarferwyr wedi gweithio'n agos ochr yn ochr â staff gofal plant i ymgorffori arferion cyfoethogi iaith i drefn bob dydd. Mae'r cydweithio agosach hwn yn cefnogi ymyrraeth gynnar a chefnogaeth fwy di-dor i blant sydd angen mewnbwn ychwanegol.

Mae gwasanaethau a gomisiynir drwy Deuluoedd yn Gyntaf yn parhau i chwarae rhan bwysig mewn cefnogi teuluoedd ag anghenion mwy cymhleth. Mae gwaith partneriaeth gyda Barnardo's, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig a'r Bont wedi cryfhau yn ystod y flwyddyn, gyda gwell cyfathrebu, llwybrau cyfeirio cliriach a threfn cynllunio achosion mwy cydlynol. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu ymyriadau wedi'u targedu, yn cynnwys cefnogaeth cam-drin domestig a theulu bregus, gan ategu at ein darpariaeth graidd a sicrhau bod teuluoedd yn cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir.

Mae trefniadau Tîm o Amgylch y Teulu yn parhau'n ganolog i gydlyniant aml-asiantaeth. Mae ymgysylltu mwy cyson wedi bod â phartneriaid ynghyd â dynodi gweithwyr proffesiynol arweiniol yn gliriach, sydd wedi gwella atebolrwydd ac olrhain camau gweithredu y cytunwyd arnynt.  Mae'r cyfarfodydd yn canolbwyntio fwy a mwy ar ganlyniadau, sy'n rhoi cynlluniau a disgwyliadau cliriach i deuluoedd.

Mae gwaith partneriaeth gydag Iechyd hefyd wedi parhau i ddatblygu'n gadarnhaol. Drwy gydweithio gyda thîm Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg, rydym wedi gallu nodi angen yn gynharach a llunio llwybrau atgyfeirio mwy llyfn at wasanaethau Dechrau'n Deg a Datblygiad Iaith Cynnar. Mae dulliau gwell o rannu gwybodaeth a chydweithio wedi lleihau dyblygu a chryfhau cefnogaeth ataliol i deuluoedd.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd dathlu 20 mlynedd o Ddechrau'n Deg. Nodwyd hyn drwy gynnal digwyddiad penodol i rannu gwybodaeth i deuluoedd, gan ddod ag asiantaethau partner a gwasanaethau ynghyd i ddangos yr ystod o gefnogaeth sydd ar gael. Roedd yn ddigwyddiad hygyrch i deuluoedd ymgysylltu ag ymarferwyr, dysgu mwy am ddarpariaeth leol a chryfhau cysylltiadau ledled gwasanaethau.

Cynhaliwyd digwyddiad i ddathlu gyda'r nos hefyd, i staff, partneriaid a theuluoedd. Hefyd yn bwysig, cafodd teuluoedd sydd wedi cael cefnogaeth gan Ddechrau'n Deg gyfle i rannu eu profiadau personol, a myfyrio ar y gwahaniaeth mae'r rhaglen wedi'i wneud i'w hyder, lles a datblygiad eu plant.  Rhoddodd y cyfraniadau hyn wybodaeth werthfawr am effaith hirdymor y gwasanaeth gan atgyfnerthu pwysigrwydd ymyrraeth gynnar. Cynhaliwyd grwpiau i rieni hefyd yn ystod yr wythnos o ddigwyddiadau, gan roi cyfle i fyfyrio ar daith y rhaglen a dathlu'r cynnydd gyda'r teuluoedd sy'n cael cefnogaeth ar hyn o bryd.







Gwnaed gwaith sylfaenol sylweddol hefyd i fwrw ymlaen â datblygiad y model Canolfannau Teuluoedd. Er nad ydynt wedi agor eto, mae'r pwyslais eleni wedi bod ar gynllunio a pharatoi. Mae'r gwaith wedi cynnwys nodi lleoliadau addas, mapio anghenion y gymuned, ymgysylltu â phartneriaid i siapio'r cynnig Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg a datblygu fframweithiau llywodraethu ac atgyfeirio. Mae'r cam rhagarweiniol hwn wedi cryfhau'r sylfeini sydd eu hangen i'w roi ar waith yn llwyddiannus.

Yn fewnol, mae prosesau adrodd a monitro wedi cael eu hymgorffori'n well, gan wella goruchwyliaeth a chefnogi olrhain perfformiad cliriach. Mae cyfathrebu wedi gwella rhwng timau, yn enwedig o ran ehangu Dechrau'n Deg, gwasanaethau a gomisiynir a chynllunio Canolfannau Teuluoedd.

Ar y cyfan, mae'r flwyddyn yn dangos cynnydd cyson, ymarferol.  Mae gwasanaethau craidd yn parhau'n gyson, mae partneriaethau'n gryfach, mae gweithgaredd ehangu ar y gweill ac mae llawer iawn o waith sylfaenol wedi'i wneud ar gyfer cam nesaf darpariaeth integredig.

**Cyfathrebu ar y Cyd**

Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig wedi buddsoddi'n drwm mewn Cyfathrebu ar y Cyd, sef model darparu gwasanaeth yn seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar

ganlyniadau. Nod Cyfathrebu ar y Cyd yw cyflawni darpariaeth gwasanaeth sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy’n gweithio ar y cyd â phlant a theuluoedd lle mae canlyniadau personol yn cael eu harchwilio i oresgyn amrywiol heriau bywyd. Mae Cyfathrebu ar y Cyd hefyd yn gwella ac yn buddsoddi yn y gweithlu ehangach trwy ddatblygu mentoriaid a hyfforddwyr i alluogi Cyfathrebu ar y Cyd i gael ei ymgorffori mewn ymarfer. Mae Cyfathrebu ar y Cyd yn canolbwyntio ar gyfres o sgyrsiau medrus, meddylgar gyda’r nod o ddatrys cyfyng-gyngor y defnyddiwr gwasanaeth.

Mae cydweithio i sefydlu canlyniadau cynaliadwy wrth wneud y mwyaf o ymreolaeth, annibyniaeth a chryfderau wrth wraidd y model.  Mae Cyfathrebu ar y Cyd yn sylwi ar bobl am y problemau maen nhw'n eu hwynebu nid y problemau maen nhw'n eu hachosi; yn sylwi ar yr adnoddau a'r cryfderau sydd gan bobl i oresgyn eu rhwystrau personol ac yn archwilio eu cryfderau, eu gwerthoedd, eu gobeithion a'u dyheadau. Nod y model Cyfathrebu ar y Cyd o ddarparu gwasanaethau yw symud i ffwrdd o'r dull traddodiadol sy'n canolbwyntio ar broblemau gyda chynlluniau sy'n canolbwyntio ar dasgau i ddulliau cyfannol sy'n canolbwyntio ar y person a'i rwydweithiau / teulu wrth ddeall hunaniaeth unigryw pob person a sefyllfa.  Nod y model yn y pen draw yw galluogi pobl i fyw bywyd mor gyflawn â phosibl a chyflawni ymdeimlad o lesiant. Mae Cyfathrebu ar y Cyd wedi datblygu nifer o fentoriaid a hyfforddwyr ar draws gwasanaethau plant, oedolion a chymorth cynnar ac mae grwpiau myfyriol yn ysgogi newid diwylliannol. Mae pob dechreuwr newydd yn cael sgiliau Cyfathrebu ar y Cyd i sicrhau ei fod wedi ei ymgorffori i ymarfer fel ‘Dull Sir Ddinbych’. Mae’r Tîm Hyfforddi Cyfathrebu ar y Cyd yn cynnwys ymarferwyr Oedolion a Phlant sy’n llwyddo i drefnu dyddiau hyfforddi drwy gydol y flwyddyn, ynghyd â’u cyfrifoldebau dyddiol. Mae hyn yn ymrwymiad a chyflawniad rhagorol a chwblhaodd pedair carfan y pecyn Hyfforddi Cyfathrebu ar y Cyd, felly ymunodd 56 o gydweithwyr â ‘Dull Sir Ddinbych’.

Mae’r adborth yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn; “Roeddwn eisiau dweud diolch am yr hyfforddiant.  Mae wedi bod mor ddefnyddiol yn y gwaith ac yn fy mywyd personol. Un o’r cyrsiau hyfforddi gorau rwyf wedi bod arnynt erioed.” Mae mentoriaid newydd wedi gallu cwblhau’r digwyddiad hyfforddi’r hyfforddwyr i feithrin mwy o allu i gyflawni yn y tîm hyfforddi.  Mae Cyfathrebu ar y Cyd yn cyd-fynd yn agos â’r dull Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

**Ap ForMi**

Mae ForMi yn adnodd cynllunio a chofnodi canlyniadau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i unigolion sy’n cael cefnogaeth bersonol, ac mae’n parhau i gael ei ymgorffori yn y Gwasanaeth Therapiwtig. Mae'r system yn gwneud y broses gynllunio, gosod nodau ac adolygu yn fyw ac yn rhoi perchnogaeth i'r unigolyn cyn belled ag y bo modd sydd yn ei dro yn ei gymell i gyflawni a datblygu. Mae'n cefnogi sgyrsiau diddorol lle gellir deall unigolyn a'i ddyheadau, a datblygu nodau sy'n cyd-fynd â'i gryfderau. Gyda chefnogaeth Mentor o'r Gwasanaeth Therapiwtig, mae pob unigolyn yn creu proffil personol sy'n seiliedig ar gryfderau a set o nodau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Cytunir ar gamau gweithredu a fydd yn cefnogi'r unigolyn i gyflawni pob nod. Caiff y rhain eu hadolygu ar y cyd yn rheolaidd, gan gynnwys barn ar gynnydd yn erbyn pob nod ar raddfa o 0 i 10. Yn unigryw, mae'r unigolyn yn cofnodi ei gyflawniadau trwy eiriau a lluniau ar ffôn clyfar, yn debyg iawn i ffrwd newyddion a ddefnyddir ar lawer o apiau cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at rymuso'r unigolyn i gymryd perchnogaeth o'i ddatblygiad a'i gynnydd ei hun. Lle mae gweithwyr proffesiynol ehangach yn ymwneud â chefnogi'r unigolyn, mae ForMi yn galluogi dull mwy cydgysylltiedig trwy eu Cylch Cymorth. Gall pawb sy'n ymwneud â Chylch Cymorth y teulu weld sut mae'r unigolyn yn dod ymlaen a darparu anogaeth, hyfforddiant, adborth a thystiolaeth ychwanegol o gynnydd. Mae ganddynt hefyd fynediad at stori'r unigolyn, gan weld ei gyflawniadau mewn amser real. Mae hyn yn ei dro yn galluogi rhoi cydnabyddiaeth yn barhaus yn hytrach nag yn gyfnodol.

**Cysylltiadau Gydol Oes**

Nod Cysylltiadau Gydol Oes yw nodi ac ymgysylltu â pherthnasau ac oedolion cefnogol eraill sy’n gysylltiedig â phlentyn sydd â phrofiad o ofal, sy’n barod i wneud ymrwymiad oes i’r plentyn hwnnw. Dengys ymchwil y gall parhad a sefydlogrwydd y perthnasoedd hyn gynnig cefnogaeth barhaus i bobl ifanc, rhoi eglurhad am ddigwyddiadau hanesyddol ac atgyfnerthu eu hunaniaeth a’u synnwyr o berthyn. Mae'r broses Cysylltiadau Gydol Oes yn darparu cysylltiadau cefnogol i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc ar gyfer y dyfodol.

Mae'r broses yn cael ei harwain gan yr unigolyn ifanc, y rhieni a chydlynydd Cysylltiadau Gydol Oes. Fodd bynnag, mae gan y gweithiwr cymdeithasol a

neilltuwyd ar gyfer y person ifanc gyfrifoldebau a disgwyliadau penodol yn ystod gwahanol gamau'r broses Cysylltiadau Gydol Oes.

Os yw staff yn ystyried unigolyn ifanc ar gyfer Cysylltiadau Gydol Oes, maent yn gofyn am Ymgynghoriad Therapiwtig gyda'r Gwasanaeth Therapiwtig, i drafod priodoldeb yr atgyfeiriad. Os penderfynir bod y broses Cysylltiadau Gydol Oes yn addas i’r unigolyn ifanc, bydd gofyn iddo efo neu hi gydsynio cyn cael Cydlynydd Cysylltiadau Gydol Oes. Bydd y gweithiwr cymdeithasol a neilltuwyd a chydlynydd Cysylltiadau Gydol Oes yn trafod y broses ymhellach ac yn diffinio'r disgwyliadau. Mae angen cydsyniad pellach, gan y sawl sydd â Chyfrifoldeb Rhiant am y plentyn neu unigolyn ifanc, i symud ymlaen i gyfarfod cynllunio a drefnir gan y Cydlynydd Cysylltiadau Gydol Oes a gwahoddir pob gweithiwr proffesiynol arwyddocaol. Mae Cysylltiadau Gydol Oes bellach yn fyw ar dudalen lanio Sir Ddinbych i sicrhau y gall plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael y wybodaeth hon wrth law a chysylltu â Chysylltiadau Gydol Oes Sir Ddinbych yn uniongyrchol. Hyd yma, mae hyn wedi bod yn llwyddiant ac mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a chefnogwyr posibl wedi cysylltu drwy’r ddolen gyswllt.

**Cynhadledd Grŵp Teulu**

Mae’r Gwasanaeth Therapiwtig yn darparu Gwasanaeth Cynhadledd Grŵp Teulu, sef proses dan arweiniad aelodau teulu i gynllunio a gwneud penderfyniadau am blant y mae gweithwyr proffesiynol wedi mynegi pryderon amdanynt ac sy’n cael eu hystyried i fod mewn perygl. Gall y risg hon ddod o sawl cyfeiriad a gall fod yn risg o niwed sylweddol i'r plant a/neu risg y bydd y plant yn dod i ofal rhywun neu'n parhau yng ngofal rhywun heblaw'r teulu ac ati. Nod y broses Cynhadledd Grŵp Teulu yw ychwanegu at gryfderau’r teulu i’w grymuso i ddeall y pryderon ehangach a chynllunio lle bo angen, i gadw eu plant yn ddiogel gyda chymorth gwasanaethau proffesiynol a rhwydweithiau cymunedol. Mae Cynhadledd Grŵp Teulu yn aml yn effeithiol wrth lunio cynlluniau diogel i blant, gan alluogi llawer i aros o fewn rhwydwaith eu teulu fel dewis arall yn lle mynd mewn i ofal neu aros mewn gofal. Mae’r cydlynydd Cynhadledd Grŵp Teulu dynodedig yn parhau’n annibynnol ar sefyllfa’r teulu. Mae’r cynnig Cynhadledd Grŵp Teulu yn cael ei ymgorffori i ymarfer plant a darperir sesiynau gwybodaeth rheolaidd i dimau ym mhob rhan o’r gwasanaeth i sicrhau bod staff newydd yn ymwybodol o’r cynnig hwn.

**Astudiaeth Achos Gwaith Trylwyr - Cyflawni Gwasanaeth Therapiwtig**

Mae gan Mr B a Mrs B 4 o blant, ac roedd dau ohonynt yng Ngofal yr Awdurdod Lleol pan ddaeth y Gwasanaeth Therapiwtig yn rhan o'r achos. Nododd asesiadau annibynnol o'r cwpl fod arnynt angen ymyrraeth magu plant pwrpasol i ddeall anghenion eu plant, sut mae eu hymddygiad cymryd cyffuriau wedi effeithio ar eu rhieni, sut mae eu perthynas, pan oedd yn anwadal, wedi achosi trawma i'r plant a sut gallai profiadau bywyd eu plant hyd yma effeithio arnynt wrth iddynt dyfu. Nodwyd bod gan Mr B a Mrs B anableddau dysgu hefyd, gydag IQ cyffredinol ar y ffin ag anableddau dysgu.

Dechreuodd y tîm drwy feithrin perthynas â Mr B a Mrs B fel eu bod yn teimlo'n ddiogel i ddod i'r sesiynau, siarad yn agored a rhoi gwybod iddynt pan nad oeddent yn deall neu angen ail egluro unrhyw wybodaeth. Fideos, Pensetiau Rhithiol, Darluniadau, Chwarae Rôl, Llythyrau Therapiwtig a dysgu mewn Grŵp oedd yr adnoddau a ddefnyddiwyd i gynnig seico-addysg am drawma, dibyniaeth, newid a lles i'r teulu dros gyfnod o 12 mis gan grŵp cyson o weithwyr proffesiynol oedd yn cadw mewn cysylltiad â'r cwpl yn rheolaidd.

Canlyniad y gwaith hwn oedd bod y 4 plentyn wedi dychwelyd i ofal eu rhieni erbyn hyn. Dywed y plant fod eu rhieni'n wahanol rŵan, yn rhoi mwy o sylw iddynt ac yn dawelach. Dywed y neiniau a theidiau eu bod yn gweld gwahaniaeth amlwg ac yn teimlo bod eu wyrion a wyresau'n ddiogel. Yn ddifyr, mae'r rhieni eu hunain yn trafod y sioc o edrych yn ôl arnynt eu hunain dros y blynyddoedd diwethaf a'r edifeirwch am eu hymddygiad yn y gorffennol.

Mae'r stori hon yn dangos amrywiaeth y gefnogaeth y gall y Gwasanaeth Therapiwtig ei gynnig gyda theuluoedd a'r capasiti i ddilyn teulu drwy eu taith. Mae'r enwau a manylion penodol wedi cael eu newid at ddibenion cyfrinachedd.

**Gofalwyr Ifanc**

Yn ystod blwyddyn ariannol 2025-2026, cafodd gofalwyr ifanc yn Sir Ddinbych fynediad at ystod eang o grwpiau, teithiau a gweithgareddau lles gyda'r bwriad o ddarparu seibiant, meithrin cyfeillgarwch a chynyddu hyder. Darparwyd

gweithgareddau yn y Rhyl, Prestatyn, Dinbych a’r ardal wledig yn ne’r sir, gydag ymgysylltiad cryf a chyfranogiad cynyddol.

Ymhlith yr uchafbwyntiau allweddol oedd llwyddiant ein grwpiau ym mhob ardal a chynnydd yn y niferoedd ym Mhrestatyn yn enwedig. Roedd y gweithgareddau grŵp yn cynnwys gwneud pitsa, crefftau, gemau parti, paentio cerrig, cacennau Rice Crispy, sesiynau jam a thrafodaethau lles.

Roedd y ddarpariaeth gwyliau’n cynnwys teithiau dydd, gweithgareddau i’r teulu, sesiynau cymorth cyntaf, cynhyrchu cerddoriaeth, cyrsiau preswyl a phrofiadau awyr agored.

Ymhlith profiadau cofiadwy eraill oedd hel crancod ar y traeth, sglefrio iâ a theganau gwynt yng Nglannau Dyfrdwy, ScareFest yn Alton Towers, Zip World Forest Coaster, aros dros nos yng Ngwersyll Plant Salford i blant dan 12 oed, teithiau i’r teulu i BeWILDerwood a Gŵyl Gofalwyr Ifanc Cymru Gyfan i’n pobl ifanc rhwng 12-18 oed ble gallant gyfarfod â gofalwyr ifanc o bob cwr o Gymru. Ariannwyd y teithiau a’r gweithgareddau gan ystod o wahanol ffynonellau ac roedd ein contract craidd yn cefnogi staffio i gydlynu ac yn y gweithgareddau mewn rhai achosion.

Arloesi a chydweithio

Mae Gofalwyr Ifanc Sir Ddinbych wedi cydweithio gyda llawer o sefydliadau elusennol lleol gwych a thimau ieuenctid a chwarae’r Cyngor yn ystod y flwyddyn, ac mae’r cyfan yn ychwanegu at gynnig ehangach ar gyfer cefnogaeth a chodi ymwybyddiaeth. Rydym wedi dechrau defnyddio Canolfannau Ieuenctid yn y Rhyl a Phrestatyn, sy’n cael eu cynnig am ddim ac sy’n gyfle i feithrin perthnasoedd gwaith gwell gyda’u staff.

Darparwyd sesiynau lles ar y cyd ar ystâd dai leol yn y Rhyl gyda Cheidwaid Chwarae Sir Ddinbych a Hamdden Sir Ddinbych Cyf, yn darparu gweithgareddau am ddim i’r teulu, byrbrydau a chefnogaeth yn y gymuned. Gan fod y sir yn eang y ddaearyddol, cafodd cefnogaeth i blant iau ei gynnwys yn hyblyg mewn teithiau i’r teulu a gweithgareddau i blant iau pan fo’n briodol.

Fe wnaethom gyflwyno rhaglenni Lles 4 wythnos mewn 3 Ysgol Gynradd ledled Sir Ddinbych a chynhaliodd darparwr allanol weithdai chwarae yn trafod y 5 Awgrym Llesol. Ffurfiodd grŵp caredig a chynhwysol o ofalwyr ifanc yn gyflym iawn, sydd

bellach yn adnabod ei gilydd yn yr ysgol fel rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Codwyd ymwybyddiaeth yn yr ysgol am eu statws hefyd.

Rydym wedi datblygu mwy o berthnasoedd gydag Ysgolion Uwchradd ym mhob cwr o'r Sir ac mae ein gweithiwr gwledig yn defnyddio ysgolion i gefnogi gofalwyr ifanc yn unigol. Mae sesiynau galw heibio a gwasanaethau ysgolion wedi dechrau ble mae egni ac angen.

Mae ein gweithiwr gwledig wedi gallu cynnig cefnogaeth gyda'r Gymraeg ar unwaith ac yn weithredol.

Rhwystrau a dysgu

Nododd gofalwyr ifanc hyder gwael, gorbryder am sesiynau grŵp ac ofnau am aros oddi cartref fel rhwystrau allweddol. Helpodd cyfarfodydd cyn cyrsiau preswyl, teithiau llai ac addasiadau ymarferol fel cymorth sglefrio i ofalwyr ifanc deimlo'n fwy diogel a'u bod yn gallu cymryd rhan. Mae'r gwersi a ddysgwyd y llynedd hefyd yn dangos bod angen i rai gweithgareddau fod yn fwy hyblyg ac wedi'u teilwra, yn enwedig i ofalwyr ifanc tawelach neu rai sydd angen cefnogaeth lai, fwy personol.

Llais gofalwyr ifanc

Disgrifiodd gofalwyr ifanc y flwyddyn fel un gadarnhaol, gyda sylwadau fel:

> "Roeddwn wrth fy modd yn cael gwneud fy mhitsa fy hun - cefais ddewis popeth!", "Y cwrs preswyl oedd y gorau - doeddwn i ddim eisiau mynd adref!", "Cefais gymaint o hwyl yn dal crancod, gwelais sglefren fôr hyd yn oed!" a "Fe wnes i ffrindiau newydd, ac rydw i'n edrych ymlaen i'w gweld eto."

Mae'r sylwadau hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd hwyl, cyfeillgarwch a chyfleoedd magu hyder i helpu gofalwyr ifanc deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi.

Mae Gofalwyr Ifanc o Sir Ddinbych wedi rhoi eu hamser hefyd i fod yn rhan o Gyngor yr Ifanc yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Bwrdd Ymgynghorol Gofalwyr Ifanc Cymru. Teithiodd grŵp bychan i Gaerdydd i'r Diwrnod Gweithredu ar gyfer Gofalwyr Ifanc ym mis Chwefror i gynnal hysting gydag Aelodau'r Senedd.

Cafodd un Gofalwr Ifanc o Fodelwyddan wahoddiad i noson yng Nghastell Windsor gyda'r Brenin a'r Frenhines a Syr Keir Starmer. Aeth â'i fam ar y trên gyda'i sgwter symudol ond nid oedd y lifftiau'n gweithio ac roedd y gwasanaeth cymorth yn wael. Fodd bynnag, llwyddodd y ddau i gyrraedd y digwyddiad mewn pryd.

Yn fwy diweddar, mynychodd grŵp o Ofalwyr Ifanc o Sir Ddinbych ddiwrnod ymgynghori ar fenter newydd i gasglu Llais yr Ifanc ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gofalwyr ifanc unigol wedi helpu gyda sesiynau hyfforddi â myfyrwyr nyrsio a gwasanaethau mewn ysgolion.

Effaith gyffredinol

Ar y cyfan, roedd 2025 / 2026 yn flwyddyn gref i Ofalwyr Ifanc Sir Ddinbych, gyda llawer o weithgarwch, gwaith partneriaeth ystyrlon a phwyslais cryf ar ddarparu seibiant, meithrin cysylltiadau â chyfoedion ac ymateb yn hyblyg i anghenion gofalwyr ifanc ledled y sir.

**Yr hyn sydd gennym ar y gweill ar gyfer 2026 / 2027**

Cynyddu nifer y Micro-ddarparwyr ym mhob cwr o Sir Ddinbych, ehangu ystod y gefnogaeth sydd ar gael mewn cymunedau lleol a pharhau i gryfhau safonau ansawdd a threfniadau llywodraethu i sicrhau bod dinasyddion yn cael cefnogaeth ddiogel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Ehangu'r cynnig Llywiwr Cymunedol a phresgripsiynu cymdeithasol drwy bartneriaeth newydd ag Iechyd Cyhoeddus BIPBC.

Parhau i ddatblygu ein cartref grŵp bychan i fodloni ein dyletswydd dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025.

Datblygu ein canolfannau teuluoedd mewn lleoliadau allweddol ledled y sir.

## Partneriaeth ac Integreiddio

**"Mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau a'r cynnydd o ran anghenion yn cael ei atal, gan sicrhau bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni i bobl."**

**"Mae cadernid yn ein cymunedau yn cael ei hybu ac mae pobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu potensial drwy gefnogi pobl y mae angen gofal a/neu gefnogaeth arnynt, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chyfrannu at gymdeithas."**

Mae ein partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a’r Trydydd Sector yn hanfodol i ni os ydym am ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol di-dor yn unol â’r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae Fforwm Gwasanaethau Integredig Sir Ddinbych yn parhau i roi cyfle i ni ddod ynghyd i gydweithio i ddatblygu, gweithredu ac adrodd ar ddarpariaeth gwasanaeth integredig ledled Sir Ddinbych, gyda chynrychiolwyr o wasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol i Oedolion a’r Trydydd Sector.

> ‘Mae hwn yn gyfarfod allweddol y fy nyddiadur. Mae’n rhoi cyfle i mi sicrhau bod ein cydweithio ar y trywydd iawn ac yn rhoi sicrwydd ar y defnydd o arian ac wrth fodloni ein rhwymedigaethau. Mae hefyd yn gyfle i drafod problemau fel maen nhw’n codi ac i rannu profiadau a llunio syniadau. Mae’r Fforwm yn rhoi amser penodol i ni ganolbwyntio ar ein cydweithio a sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn allwn ni i fodloni anghenion ein dinasyddion a’n cleifion.’ Alison Kemp (Cyfarwyddwr Cyswllt - Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol)

> ‘Mae fforwm Gwasanaethau Integredig Sir Ddinbych yn cryfhau cydweithio ar draws asiantaethau a grwpiau proffesiynol. Drwy wella cyfathrebu, strwythuro’r ffordd o rannu gwybodaeth a chefnogi penderfyniadau ar y cyd, rydym yn sicrhau bod ein nodau sefydliadol yn cyd-fynd yn fwy effeithiol, ac yn darparu gwasanaethau sy’n fwy diogel ac effeithlon, ac sydd wedi’u teilwra’n well i fodloni anghenion y bobl a wasanaethwn.’ Y Cadeirydd David Soley (Prif Reolwr a Chomisiynydd Arweiniol Gofal Cymdeithasol i Oedolion).

Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol (CRT) sy'n cynnwys staff Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector, gyda chysylltiadau agos â meddygfeydd lleol, yn parhau i ddarparu modelau integredig o weithio er budd dinasyddion. Mae arweinydd ar gyfer pob un o'r 4 CRT yn Sir Ddinbych ynghyd â chydlynwyr CRT yn cyfarfod ag Uwch Reolwyr ac arweinwyr o dimau CRT Conwy yng Ngrŵp Ffocws Arweinwyr CRT, i rannu diweddariadau, cynllunio a cheisio cefnogaeth ar gyfer datblygiadau newydd.  Ar 11 Chwefror 2026, daethom ynghyd mewn gweithdy datblygu CRT, gan

ailadrodd ein hymrwymiad i waith CRT a dechrau cynllunio beth arall y mae arnom eisiau ei wneud.

I brofi ein barn ein bod yn darparu gwasanaethau gwell gyda'n gilydd, drwy gydol 2025 / 2026 rydym wedi parhau i gysylltu â dinasyddion bob mis i gael adborth ar y gwasanaeth y maent wedi'i gael.

“Roeddem yn teimlo’n gyfforddus iawn yn siarad â’r Therapydd Galwedigaethol ac fe ofynnodd hi’r holl gwestiynau cywir”

“Roedd y gwasanaeth yn rhagorol. Llwyddodd y gweithiwr i ddeall beth oedd ei angen a beth fyddai’n fy nghefnogi orau”

‘Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwasanaeth a gawsom gan ei fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ni. Nid ydym yn teimlo ein bod angen unrhyw beth arall gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar hyn o bryd, rydym yn falch iawn gyda’r ffordd mae’r gwasanaethau wedi dod at ei gilydd i’w helpu’.

‘Cafodd popeth ei wneud drwy’r drefn gywir fel y dylai, doedd dim byd a ellid fod wedi ei wneud yn well’

“Hapus iawn gyda’r gwasanaeth a gafwyd gan Nyrs Ardal hyfryd”

**Comisiynu Gwasanaethau**

Cymerodd Cyngor Sir Ddinbych yr awenau ar ail dendro’r fframwaith rhanbarthol gofal yn y cartref diwygiedig, a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2025. Mae pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a BIPBC yn rhan o’r fframwaith hwn a chyfrannodd bob partner at ddatblygu’r contract a phroses dendro ar eu newydd wedd. Fe lywiodd adborth gan asiantaethau yn ystod ymarfer ymgynghori’n sylweddol at y manylion terfynol hefyd. Canlyniad yr ail-dendro hwn oedd bod sawl darparwr newydd wedi ymuno â marchnad gofal yn y cartref Sir Ddinbych ac ers hynny, mae’r ‘rhestr aros’ am ddyrannu gofal yn y cartref yn Sir Ddinbych wedi gostwng yn sylweddol.

Rydym yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru a BIPBC i ddatblygu’r fframwaith byw â chymorth diwygiedig, sydd i fod i ddechrau yn 2027.

Rydym wedi adeiladu ar berthnasoedd gwaith agos a sefydlu mwy o gysondeb gydag Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru a BIPBC o ran pennu a thrafod

ffioedd gofal, yn cynnwys rhannu'r defnydd o'r meddalwedd Care Cubed i gefnogi dulliau mwy cyson a thryloyw o bennu ffioedd/ methodoleg drafod. Cynhelir cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd ac mae SharePoint wedi'i sefydlu i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gallu rhannu gwybodaeth a chydweithio'n effeithlon i gyrraedd cytundebau am ffioedd sy'n adlewyrchu gwir gostau gofal.

Mae gennym sawl contract rhanbarthol / isranbarthol yn cynnwys cefnogaeth i ofalwyr ifanc, Rhannu Bywydau, Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol, tai â chymorth y Grant Cymorth Tai, cwnsela i oroeswyr cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod ymhlith eraill.

Rydym wedi comisiynu gwasanaeth hunan-eirioli ar ei newydd wedd gyda Chyswllt Conwy, gyda'r nod o gefnogi pobl ag anabledd dysgu i eiriol drostynt eu hunain ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan eu helpu i siapio cefnogaeth a gwasanaethau eraill.

Mae gwaith ar y cyd wedi parhau ar gynllunio ar gyfer ail-gomisiynu nifer fawr o gontractau byw â chymorth, gyda phwyslais penodol ar alluogi dinasyddion i gael llawer mwy o ddewis a rheolaeth, wedi'i gefnogi gan ddeddfwriaeth caffael newydd.

**Fforymau a Grwpiau**

Mae fforymau amrywiol wedi parhau / cael eu sefydlu i gefnogi partneriaethau effeithiol a dulliau integredig, yn cynnwys:

Mae **fforwm Darparwyr Rheoledig Gofal a Chefnogaeth Sir Ddinbych** wedi cael ei ail-sefydlu i rannu gwybodaeth allweddol, rhwydweithio a meithrin cysylltiadau cryfach rhwng darparwyr a Chyngor Sir Ddinbych, i gefnogi arfer gorau mewn comisiynu a darparu.

Mae **Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych** yn fforwm o sefydliadau gofalu o'r sector statudol a'r trydydd sector sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr di-dâl. Mae'n cael ei gadeirio ar y cyd gan Gyngor Sir Ddinbych a sefydliad partner o'r Sector Gwirfoddol, sef Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru ar hyn o bryd. Mae'r grŵp yn gweithio i ddatblygu cefnogaeth i fodloni anghenion gofalwyr yn Sir Ddinbych, mae'r aelodau'n rhannu gwybodaeth a phrofiadau, yn cydweithio ac yn cysylltu â fforymau lleol eraill yn cynnwys Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych. Mae'r Grŵp hefyd yn llywio ac yn bwydo i'r Grwpiau Gofalwyr Rhanbarthol sy'n adrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae **fforymau Cymheiriaid Gofalu** pob pythefnos yn dilyn fformat cydweithredol ac yn gyfle i ddod o hyd i atebion mwy cynaliadwy a chreadigol i fodloni anghenion cefnogi gofalwyr. Mae'n ein helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o anghenion gofalwyr a rhannu hyn ar draws gwasanaethau; mae profiad, gwybodaeth a sgiliau pawb yn cael eu defnyddio i greu canlyniadau gwell.

Mae **Swyddogion Contractau a Chomisiynu** yn mynychu gweithgor gyda BIPBC a phartneriaid Awdurdod Lleol eraill gyda'r nod o sicrhau bod cydweithio effeithiol ac ystyrlon gyda'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys archwilio opsiynau comisiynu ar y cyd.

Ymgysylltir â dinasyddion, gofalwyr, darparwyr a budd-ddeiliaid ehangach i lywio'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sy'n cael ei gydlynu'n rhanbarthol ar gyfer chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Datblygu gwasanaeth a monitro ansawdd**

Mae'r holl wasanaethau a gomisiynir yn cael eu monitro'n rheolaidd, sy'n cynnwys casglu adborth gan fudd-ddeiliaid yn cynnwys timau eraill o Gyngor Sir Ddinbych, rhai sy'n atgyfeirio, dinasyddion a'u deuluoedd / cynrychiolwyr. Mae hyn yn cynnwys holiadur i ddinasyddion / teuluoedd / cynrychiolwyr i gasglu adborth ar gartrefi gofal ac asiantaethau gofal yn y cartref pan fydd pryderon. Anogir darparwyr i rannu astudiaethau achos hefyd.

Yn 2025, fe wnaethom drefnu gweithdy mapio proses gyda'n darparwr a gomisiynir, Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i archwilio taith y gofalwr o atgyfeiriad i fonitro ac adolygu. Helpodd hyn ni i adolygu a gwella prosesau atgyfeirio a llwybr cefnogi i ofalwyr di-dâl. Mae ein pwyslais ar gryfderau a gallu pobl a defnyddio gwasanaethau cymunedol pan fo'n bosibl.

**Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed**

Yn Sir Ddinbych, mae ein gwaith i ddod yn gymuned sy'n gyfeillgar i oed yn cael ei arwain gan grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych, rhwydwaith o unigolion ac asiantaethau o'r sectorau gwirfoddol, statudol ac annibynnol sy'n rhannu'r un nod o gydweithio i wneud Sir Ddinbych yn sir dda i heneiddio ynddi.

Mae gennym ychydig dan 100 o aelodau ac rydym yn cyfarfod bob chwarter i drafod meysydd sy'n peri pryder neu ddatblygiadau. Rydym wedi cael statws Cymuned

sy'n Gyfeillgar i Oed, fel sy’n cael ei gymeradwyo gan Sefydliad Iechyd y Byd a’i gefnogi gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.  I ddod yn Gymuned sy'n Gyfeillgar i Oed gan Sefydliad Iechyd y Byd, fe wnaethom gydweithio i lunio cynllun gweithredu, edrych ar y camau gweithredu y mae angen i ni ganolbwyntio arnynt, dan yr 8 parth gwahanol:

- Gofod tu allan ac adeiladau
- Cludiant
- Tai
- Cyfranogiad cymdeithasol
- Parch a chynhwysiant cymdeithasol
- Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth
- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Cefnogaeth gymunedol a gwasanaethau iechyd

Mae ein pwyllgor llywio amlasiantaeth yn cyfarfod bob chwarter i lywio a gwerthuso cynnydd ac i sicrhau bod pawb yn rhan o’r gwaith, yn cynnwys y sector statudol a’r trydydd sector a phobl hŷn eu hunain.

Mae’r Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn parhau i chwarae rôl weithredol fel ein Cefnogwr Cyfeillgar i Oed a Phobl Hŷn.

Gyda help grant gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gallu ymestyn gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o Heneiddio’n Dda yn Sir Ddinbych ymhlith grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill â chysylltiadau i bobl hŷn, ac wrth wneud hynny, ymestyn aelodaeth Heneiddio’n Dda yn Sir Ddinbych i barhau i ddatblygu Sir Ddinbych fel sir Cyfeillgar i Oed drwy:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o Gynllun Gweithredu Cyfeillgar i oed Sir Ddinbych a datblygu cysylltiadau â budd-ddeiliaid ac eraill i fwrw ymlaen a mesur manteision y camau a ddiffinnir.
- Parhau’n aelod gweithredol o rwydweithiau cefnogi Cyfeillgar i Oed yn cynnwys Cymuned Ymarfer Cyfeillgar i Oed Cymru Gyfan a Chymuned Ymarfer Cyfeillgar i Oed Gogledd Cymru.

Mae Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn cynnwys ymhlith eraill, aelodau o Hamdden Sir Ddinbych, tîm Contractau a Chomisiynu Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Iechyd Cyhoeddus, cynrychiolwyr Tai, y Groes Goch Brydeinig, Gofal a Thrwsio, fforymau Anabledd ac aelodau unigol o'r gymuned. Mae aelodau'n cynrychioli Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych ar grwpiau rhanbarthol a sirol eraill megis y grŵp strategaeth gofalwyr a grwpiau Dementia Rhanbarthol a Sir Ddinbych.

Mae Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn cynnal gweithgareddau ymgysylltu rheolaidd â phobl hŷn sy'n helpu i werthuso themâu sy'n bwysig iddynt a chrisialu'r camau gweithredu a ystyrir yn gyfeillgar i oed ac felly'n ein helpu i ddatblygu ein cynllun gweithredu.

Ymhlith enghreifftiau i'r gweithgarwch sydd ar y gweill mae:

- Mae tenantiaid Tai Gofal Ychwanegol, cydlynwyr gweithgareddau mewn cartrefi gofal a gwirfoddolwyr eraill yn ymgysylltu â phobl hŷn ledled y sir, gan gasglu a chofnodi eu straeon gyda'r bwriad o'u casglu ar 'Gasgliad y Werin'.
- Digwyddiadau ymgysylltu parhaus ar hyd a lled y sir, er enghraifft ar wythnos Gofalwyr neu wythnos Gweithredu ar Ddementia. Mae hyn yn cynnwys cefnogi prosiectau creadigol pontio'r cenedlaethau amrywiol, llawer ohonynt yn cynnwys ysgolion, a helpu cartref gofal drefnu taith gerdded er cof am un o'u preswylwyr i godi ymwybyddiaeth am ddementia.
- Rydym yn cymryd rhan mewn archwiliadau rheolaidd o ran pa mor addas yw rhywle i gerdded a defnyddio cadeiriau olwyn ac yn y blaen, pan fydd aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn cynghori cynllunwyr a'r tîm Teithio Llesol am y mathau o bethau y dylent eu hystyried wrth newid dyluniad trefi. Cynrychiolwyr o'n tîm Colli Synhwyrau, FDF, y fforwm Anabledd a phrofiad rhywun sy'n defnyddio cadair olwyn am ba mor addas yw rhywle ar gyfer cadair olwyn, a phrofiad fel eiriolwr cydraddoldeb.
- Mae aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych wedi cynghori cydweithwyr o Iechyd Cyhoeddus pam nad oes llawer yn cymryd rhan mewn mentrau sgrinio iechyd yn y sir ac mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i edrych ar yr heriau cludiant a pharcio sy'n cyfrannu at hyn.

Rydym yn ymdrechu'n galed i ymgysylltu â phobl hŷn hefyd, nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ffurfiol a chyfarfodydd. Mae aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn cynnal trafodaethau unigol â phobl hŷn sydd â syniadau gwych i'w cyfrannu, ond bod yn well ganddynt gyfarfodydd un i un. Yn aml, mae trafodaethau'n digwydd mewn lleoliadau preswyl, cynlluniau tai gofal ychwanegol a chartrefi pobl, os bydd gwahoddiad.

Mae ein haelodaeth yn rhoi mynediad i ni at y rhai nad ydynt yn cael eu cynrychioli mor aml, er enghraifft aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae aelodau sy'n cynrychioli'r rhai ag anableddau yn sicrhau bod pob lleoliad a ddefnyddir gennym yn hygyrch, bod ein holl waith yn ddwyieithog a bod dehonglwyr ar gael bob amser, yn cynnwys dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain.

Mae gennym berthynas waith agos â rhwydwaith Sir Ddinbych Ymwybodol o Ddementia sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o'n mentrau cyfeillgar i oed a phwyslais cryf ar fentrau ag agwedd pontio'r cenedlaethau. Mae gwaith pontio'r cenedlaethau diweddar ar godymau a diwrnod chwaraeon pontio'r cenedlaethau yn ddwy enghraifft.

**Ymarfer Cyffredinol a Gweithgareddau Ychwanegol**

Anogodd arfer da, astudiaethau achos, pecynnau offer a thaflenni gwybodaeth y gymuned a gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, yn ogystal ag arolygon, digwyddiadau ymgysylltu ac adborth gan ymarferwyr.

Rydym yn treulio llawer o amser yn gwrando ar ofalwyr di-dâl a chreu cyfleoedd iddynt gyfrannu at ddyluniad y gwasanaethau, gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ar wahanol lefelau e.e. wrth asesu a'u cynnwys yn y gwaith o gomisiynu gwasanaethau a monitro contractau. Mae ein tîm cyfathrebu'n hyrwyddo gwybodaeth i ofalwyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac rydym wedi gweithio gyda nhw i godi ymwybyddiaeth o weithgareddau ar gyfer Wythnos Genedlaethol Gofalwyr, Diwrnod Hawliau Gofalwyr ac Wythnos Gofalwyr.

Rydym hefyd yn defnyddio adnoddau cymunedol megis ein sesiynau Pwyntiau Siarad i estyn allan a chwblhau gwaith gyda gofalwyr cudd. Mae hyn yn sicrhau proses atgyfeirio glir ac effeithiol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a'r trydydd sector.

Mae gennym berthynas waith agos â Sir Ddinbych yn Gweithio. Mae gofalwyr lleol yn elwa o gynnig a ddatblygwyd drwy waith partneriaeth, gan sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a lleihau dyblygu a thynnu sylw at unrhyw fylchau y gallai cyllid Arloesi eu datrys. Rydym hefyd wedi sicrhau cyllid Arloesi ar gyfer dwy swydd newydd, i weithio'n benodol â gofalwyr di-dâl.

Mae Timau Adnoddau Cymunedol yn cefnogi gwaith integredig rhwng gofal sylfaenol a chymuned. Mae ein Haseswyr Gofal a gomisiynir yn gysylltiedig â'r pedair canolfan adnoddau cymunedol yn Sir Ddinbych.

**Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol**

Mae gweithio mewn partneriaeth a darparu gwasanaeth integredig yn parhau'n ganolog i ymagwedd y gwasanaeth. Eleni, mae perthnasoedd cydweithredol cryf wedi parhau gyda phartneriaid iechyd, yn cynnwys timau nyrsys ardal a gwasanaethau clinigol ehangach, wedi'u cefnogi gan ymgysylltiad rheolaidd a phresenoldeb mewn cyfarfodydd tîm i hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd ac ymarfer cyson.

Mae mentrau ar y cyd, megis adolygu cyfarpar mewn cartrefi gofal ac ymgysylltiad parhaus â thimau gweithredol, wedi cryfhau'r cydlyniant yn y gwasanaethau. Mae'r gwasanaeth wedi cyfrannu hefyd at weithgarwch rhanbarthol, yn cynnwys cymryd rhan yng Nghontract Cynnal a Chadw Gogledd Cymru, sy'n dangos ymrwymiad i welliant drwy'r system gyfan.

Mae'r gwaith parhaus i sicrhau bod prosesau'n cyd-fynd ar gyfer cyfarpar Gofal Iechyd Parhaus yn tynnu sylw at bwyslais parhaus y gwasanaeth at wella integreiddio ar draws ffiniau sefydliadol a sicrhau dull cydlynus o ddarparu gwasanaethau.

**Y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol**

Mae Sir Ddinbych yn cynnal y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol (LIFT), prosiect Cronfa Integredig Ranbarthol gyda'r nod o ymyrryd yn gynnar i gefnogi teuluoedd sy'n profi anawsterau wrth reoli ymddygiadau heriol a niweidiol eu plentyn gartref. Bellach yn ei 5ed flwyddyn, mae'r prosiect yn gydweithrediad partneriaeth rhwng Cynghorau Sir Dinbych a Chonwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r tîm wedi ymgorffori Therapi Systemig Teuluol yn ymyriadau'r tîm ac wedi parhau i weithredu'r Fframwaith Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol, gan ddatblygu eu sgiliau'n benodol wrth gefnogi teuluoedd i greu 'amgylcheddau galluogi' i bobl ifanc.

Rydym wedi llwyddo i benodi Seicolegydd Clinigol a Therapydd Systemig Teulu i’r tîm, ac ochr yn ochr â’n Therapydd Galwedigaethol, maen nhw’n rhoi mewnbwn arbenigol i’n cynlluniau cefnogi i’r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw.

Mae’r Tîm Teuluoedd Integredig Lleol yn cynnig cymorth ar ffurf tair cangen: Ymyrraeth uniongyrchol â theuluoedd, darparu cyngor arbenigol a chyfeirio, a datblygu’r gweithlu drwy ymgynghoriadau cyfathrebu ar y cyd â gweithwyr proffesiynol sy’n gweithio gyda theuluoedd.

Mae’r galw’n parhau’n uchel iawn am y gefnogaeth a gynigir gan y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol ac mae ffactorau sylweddol yn llywio’r galw megis y cynnydd mewn achosion niwroamrywiol, defnydd o’r cyfryngau cymdeithasol, effaith yr argyfwng costau byw, iechyd meddwl / emosiynol a chorfforol rhieni a chamddefnyddio sylweddau.

Gwaith Uniongyrchol gyda Theuluoedd

Mae’r Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol wedi gweithio gyda 42 o deuluoedd yn ystod y flwyddyn. Mae ein dull yn grymuso teuluoedd yn hytrach na chreu dibyniaeth neu ddatrys y broblem drostynt. Mae’r Gwasanaeth yn helpu teuluoedd ac asiantaethau eraill i ddeall pam bod pobl/plant/pobl ifanc yn ymddwyn fel maen nhw - sut mae teimlad a swyddogaeth i ymddygiad bob amser. Weithiau, gall y ddealltwriaeth honno’n unig arwain at newid ac ar adegau eraill, mae’n bosibl y bydd angen strategaethau/ymyriadau mwy pwrpasol. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu nad oes newid mewn ymddygiad plentyn heb newid yn y prif ofalwr a/neu newid yn yr amgylchedd. “Mae plant rheoledig, wedi’u cysylltu, sy’n teimlo’n ddiogel yn ymddwyn yn dda”. Gall newid yn y prif ofalwr a newid amgylcheddol fod yn rhwystr i gefnogi teuluoedd ble mae ymddygiad sy’n peri pryder yn y cartref.

Un o'r prif themâu o'r adborth gan deuluoedd oedd cyfathrebu cadarnhaol.

Roeddent yn teimlo 'bod rhywun yn gwrando' a'i fod yn 'rhyddhad mawr i gael eu clywed o'r diwedd'.  O ganlyniad i hyn, disgrifiwyd synnwyr 'da' o 'gysylltu'.

Roedd teuluoedd yn disgrifio bod 'popeth yn cael ei egluro bob amser' a bod y tîm yn sicrhau bod 'gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu cynnwys'. Helpodd y tîm 'i gydnabod problemau ac roeddent yn onest gyda ni' ac roedd y gefnogaeth yn 'eithriadol ac o fudd mawr'. O ganlyniad, 'roedd gwahaniaeth mawr', 'rydym yn ôl ar y trywydd iawn' ac 'mae pwysau mawr wedi'i godi oddi ar fy ysgwyddau'.

Eleni, er mwyn helpu gyda grymuso, mae'r Tîm Teuluoedd Integredig Lleol wedi llunio tair dolen seico addysg sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan y gwasanaeth - https://www.denbighshire.gov.uk/cy/iechyd-a-gofal-cymdeithasol/plant-pobl-ifanc-a-theuluoedd/tim-integredig-teuluoedd-lleol/tim-integredig-teuluoedd-lleol.aspx

Pan fydd teuluoedd yn gadael y gwasanaeth, rydym yn rhoi llythyr diwedd gwasanaeth iddynt sy'n crynhoi eu nod a'r cynnydd a wnaed pan gawsant eu cefnogi gan y tîm, yr ymyraethau a'r technegau a ddefnyddiwyd a'r cyfeiriadau at adnoddau allweddol a ddefnyddiwyd er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Cynhaliwyd dadansoddiad o'r llythyrau diwedd gwasanaeth sy'n rhoi trosolwg o'r gwaith y mae'r tîm wedi'i gwblhau gyda theuluoedd ac yn crynhoi'r canlyniadau a gyflawnwyd gan ddefnyddio'r mesuryddion man cychwyn a'r canlyniadau ar y diwedd.

Roedd plant a theuluoedd yn cael eu cyfeirio at y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol gydag ystod o anghenion cymhleth a chydberthynol.  Yn aml, roedd atgyfeiriadau'n sôn am ymddygiad sy'n herio, yn cynnwys ymddygiad ymosodol corfforol a llafar, ymddygiad sy'n tarfu, difrodi eiddo, pyliau o golli rheolaeth ac anawsterau i reoli emosiynau. Roedd gan lawer o blant bryderon ychwanegol o ran cwsg, bwyta, sensitifrwydd synhwyraidd, lles emosiynol, presenoldeb yn yr ysgol, perthnasoedd â chyfoedion a phontio mewn addysg. Roedd nifer o atgyfeiriadau hefyd yn tynnu sylw at ymddygiad o hunan-anafu a phryderon parhaus am iechyd meddwl. Roedd gwahaniaethau niwro-ddatblygiadol, yn cynnwys pryderon yn ymwneud ag Awtistiaeth ac ADHD yn cael eu nodi'n aml, ynghyd â'r angen am asesiad pellach neu gefnogaeth wedi'i chydlynu.

Yn aml, roedd teuluoedd yn chwilio am gymorth i ddeall ymddygiad eu plentyn yn well, cryfhau perthnasoedd a rheoli anawsterau yn y cartref a'r ysgol, yn enwedig pan fydd profiadau cynnar, trefniadau gofal neu fwy o bwysau wedi effeithio ar y ffordd mae'r teulu'n gweithio. Ymhlith y nodau a osodwyd gan deuluoedd i reoli ymddygiad oedd yn peri pryder oedd lleihau 'ffrwydradau o dymer', 'pyliau o golli rheolaeth' a 'pheidio â ffrwydro fel tân gwyllt' a 'lleihau hunan-niwed'. Roedd ar deuluoedd eisiau deall eu plant yn well, yn cynnwys eu hymddygiad a'r sbardunau, a dysgu strategaethau i gefnogi eu plant i 'fod yn gyson', 'gosod strwythur mewn ffordd y mae'n ei deall' a 'gosod ffiniau'.

<u>Datblygu'r Gweithlu drwy ymgynghoriadau Cyfathrebu ar y Cyd</u>

Mae gan y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol rôl hefyd mewn datblygu'r gweithlu, gan wella staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd i ddeall yn well sut y gallant gefnogi teuluoedd i reoli ymddygiad sy'n herio gartref. Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu cyfathrebu/ ymgynghoriad, hyfforddiant a chymorth ar y cyd i weithwyr proffesiynol a theuluoedd, gan feithrin sgiliau a chapasiti yn y gweithlu. Cwblhaodd y tîm 390 o ymgynghoriadau/cyfathrebu ar y cyd â gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi teuluoedd yn ystod y flwyddyn. Helpu gwasanaethau i 'ddal gafael', yn hytrach na 'chyfeirio ymlaen' yn unol ag ethos 'Dim Drws Anghywir' y rhanbarth.

Mae adborth gan weithwyr proffesiynol yn disgrifio ein cefnogaeth fel:

> "Hynod o werthfawr, fe wnaethom archwilio ystod o gamau gweithredu, wedi'u teilwra i anghenion y teulu. Fe wnaethom ein hannog ni a defnyddio eu harbenigedd i rannu pethau'n gamau hawdd eu rheoli. Roedd y wybodaeth am ddulliau rheoli ymddygiad, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar gryfderau yn addysgiadol iawn. Roedd ganddynt agwedd dawel, oedd yn tawelu meddwl, roeddwn y teimlo'n gyfforddus ac yn cael fy nghefnogi yn enwedig pan oeddwn yn ansicr neu ddim yn gwybod beth i'w wneud. Roedden nhw'n tawelu fy meddwl o'r dechrau ac yn fy helpu i symud ymlaen gyda chynllun. Bob amser yn agos atoch a llawn brwdfrydedd, doedd dim byd yn ormod o drafferth. Roedden nhw'n cysylltu â'r rhieni, gan ddangos empathi a gweithio'n agored a gonest. Roedd newid sylweddol a chadarnhaol gyda'r teulu, rhywbeth nad oeddwn wir yn ei gredu fyddai'n bosibl".

<u>Cefnogaeth Ymarferol ac Ataliol</u>

Roedd y Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol yn darparu cefnogaeth ymarferol ac ataliol er mwyn sefydlogi teuluoedd a lleihau'r angen am ymatebion mewn argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau proffiliau niwroddatblygiadol a synhwyraidd, defnyddio adnoddau megis y teclyn archwilio Amgylcheddau sy'n Galluogi, a chefnogi addasiadau amgylcheddol yn y cartref a'r ysgol i fodloni anghenion plant yn well. Cefnogwyd teuluoedd i gael mynediad at asesiadau a gwasanaethau priodol, yn cynnwys llwybrau niwroddatblygiadol, apwyntiadau iechyd a darpariaeth arbenigol, a rhoddwyd cymorth ymarferol pan oedd rhwystrau. Drwy helpu teuluoedd roi strategaethau a strwythurau ar waith yn gynnar a thrwy gryfhau rhwydweithiau cefnogi ehangach, helpodd y Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol y teuluoedd i reoli anawsterau'n fwy effeithiol, gan ddibynnu llai ar ymyrryd mewn argyfwng a chefnogi newid cynaliadwy y tu hwnt i ddiwedd y gwasanaeth.

Ein nod yn ystod y flwyddyn nesaf yw adeiladu ar y sefydlogrwydd o gael tîm llawn, datblygu ein hadnoddau sydd ar gael yn gyhoeddus a'u hyrwyddo gyda'n partneriaid a chymunedau a chynllunio ar gyfer datblygu'r tîm yn y dyfodol wedi i'r Cyllid Integredig Rhanbarthol ddod i ben.

**Bwthyn y Ddôl**

Canolfan asesu breswyl a thîm amlddisgyblaethol yw Bwthyn y Ddôl a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a BIPBC. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc ar ffin y system ofal ac mewn perygl o dderbyn gofal gan nad yw eu rhiant neu ofalwr, am amrywiaeth o resymau, yn gallu rheoli dynamig teuluol iach. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar ffurfio cryfderau ac anawsterau, peryglon ac anghenion drwy broses ymgynghori i ddechrau, er mwyn argymell rhaglen o ymyraethau.

Datblygwyd y dull gofal drwy dîm amlasiantaeth gyda phwyslais ar ofynion ac anghenion penodol plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae'r dull arloesol hwn o lunio model gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â'r ymarfer myfyriol a fabwysiadwyd gan y tîm, eisoes wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol pan fo'r plant / pobl ifanc yn cwblhau'r ymyrraeth yn llwyddiannus ac yn aros yn eu cartref gyda theulu'n ddiogel.

Mae llwybr clir ar gyfer atgyfeirio i'r uned ac mae plant o Gonwy a Sir Ddinbych wedi cael eu cefnogi'n llwyddiannus o fewn elfen breswyl y ganolfan, a hynny yn yr adeilad

derbyniadau a gynlluniwyd a darpariaeth frys, Eryri. Cafodd Bwthyn y Ddôl ei archwilio gan AGC a chafodd sgôr Da ym mhob maes.

**Eiriolaeth Rhieni – Diogelu Plant**

Yn ystod y 3 blynedd diwethaf, mae Tros Gynnal Plant wedi bod yn darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i rieni plant yn y Maes Amddiffyn Plant ledled Gogledd Cymru, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chanlyniadau ac ar sail materion. Mae gan rieni hawl i gael cefnogaeth mewn cyfarfodydd perthnasol, yn cynnwys Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol a Grwpiau Craidd a gellir atgyfeirio un ai dros e-bost/ffôn/wyneb yn wyneb neu'n uniongyrchol gan rieni neu weithwyr proffesiynol wedi iddynt gael cydsyniad y rhiant.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a chyfarfodydd a gefnogwyd:

| | 2024 / 2025 | 2025 / 2026 |
|---|---|---|
| Nifer yr atgyfeiriadau | 21 | 18 |
| Cyfarfodydd a gefnogwyd | | |
| • Cynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol | 3 | 1 |
| • Grŵp Craidd | 11 | 8 |
| • Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant | 10 | 6 |

Mae Tros Gynnal Plant wedi cael dau gais prynu yn ôl yr angen ar gyfer rhieni yr oeddent eisoes yn gweithio gyda nhw i gynorthwyo a chefnogi gydag asesiadau magu plant, cyfreithwyr, achosion llys a hefyd i gefnogi i ddeall y gwaith papur sy'n gysylltiedig â'r fforymau hyn yn ogystal â chysylltu â gweithwyr proffesiynol ar ran y rhieni.

**Cynnig Gweithredol o Eiriolaeth**

Mae gan unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal neu sy'n mynd i mewn i'r maes Amddiffyn Plant hawl i gynnig gweithredol o eiriolaeth i'w helpu i'w llais gael ei glywed mewn cyfarfodydd ac ati. Mae'r Gwasanaeth Eirioli yn cael ei ddarparu gan Tros Gynnal Plant ar hyn o bryd.

Mae'r tabl isod yn dangos nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd a sawl un aeth ymlaen i Eiriolaeth ar sail Materion:

| | 2024 / 2025 | 2025 / 2026 |
|---|---|---|
| Nifer yr atgyfeiriadau Cynnig Gweithredol a dderbyniwyd<br>• Amddiffyn Plant<br>• Derbyn Gofal | **14**<br>9<br>5 | **24**<br>16<br>8 |
| Nifer yr atgyfeiriadau aeth ymlaen i Eiriolaeth ar sail Materion | 4 | 14 |

**Mind of My Own**

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnig Mind of my Own fel adnodd i gasglu llais y plentyn a'i amlygu. Mae diweddariadau i'r platfform bellach yn caniatáu i blant a phobl ifanc ychwanegu mwy o fanylion neu gyd-destun wrth ddweud eu bod yn teimlo'n ofnus, anhapus neu anniogel. Mae adroddiadau unigol wedi cael eu datblygu i blant a phobl ifanc sydd wedi cyflwyno sawl datganiad, er mwyn ystyried amlder, patrymau a themâu. Mae'r Grŵp Sgiliau Annibynnol hefyd wedi defnyddio Mind of My Own mewn 'Sesiwn Cynllunio i fod yn Oedolyn'.

<u>Astudiaethau Achos Arfer Da Mind of My Own parthed Amddiffyn Plant</u>

Tynnodd adborth diweddar a gafwyd gan Gadeirydd Cynhadledd sylw at y defnydd rhagweithiol o Mind of My Own gan ysgol fel rhan o Gynhadledd Amddiffyn Plant, gan gasglu safbwyntiau a phrofiad bywyd y plentyn, a chaniatáu i ymyriadau gael eu haddasu mewn ymateb i unrhyw bryderon.

Mae Plentyn A yn 7 oed ac yn destun proses Cynhadledd Amddiffyn Plant. Mae ei enw'n cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac mae'n cael cefnogaeth barhaus gan yr ysgol.

Adborth gan Gadeirydd y Gynhadledd:

> "Darparodd yr ysgol adroddiad trylwyr i'r gynhadledd, ar amser. Mae'r gefnogaeth maen nhw'n ei roi i Blentyn A yn ardderchog! Mae nhw'n eiriol yn briodol dros y plentyn, yn casglu ei ddymuniadau a theimladau drwy sesiynau meithrin ac yn defnyddio ap Mind of my Own (Mae Plentyn A wir wedi ymgysylltu â'r adnodd hwn). Mae Plentyn A yn gallu defnyddio ardal dawel amser cinio. Mae gan staff berthynas ofalgar, llawn ymddiriedaeth gyda'r plentyn, mae'n amlwg mai'r ysgol yw ei le diogel ac mae'n teimlo ei fod yn gallu rhannu ei bryderon. Maen nhw'n annog ei gryfderau a chyflawniadau ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r rhieni mewn ffordd barchus wrth barhau i godi pryderon diogelu cyn gynted ag y byddent yn codi."

Adborth gan Weithiwr Cymdeithasol y plentyn.

Anfonodd Plentyn A sawl datganiad Mind of my Own yn cynnwys rhai ble mae'n dweud ei fod yn teimlo'n anniogel, yn anhapus neu'n ofnus. Er bod pob datganiad unigol yn cael eu derbyn a'u hadolygu, rydym wedi gallu gweithio gyda Gweithiwr Cymdeithasol Plentyn A i lunio adroddiad i ddadansoddi patrymau a thueddiadau

> "Mae Plentyn A yn cael ei gefnogi bob bore ar gyfer ei les emosiynol, mae'n cael dewis defnyddio Mind of My Own yn ystod y sesiwn ac felly nid oes gennym ddatganiadau bob dydd. Ni fydd angen i bob plentyn gael cyswllt bob dydd, ond mae'n angenrheidiol i Blentyn A, felly weithiau byddwn yn cael llawer o ddatganiadau ac weithiau dim gymaint. Mae Plentyn A yn defnyddio ei gyfeiriad e-bost Hwb yr ysgol, ac mae'n mewngofnodi i Mind of my Own yn yr ysgol, sy'n gweithio'n dda iawn. Mae gan yr ysgol amser i egluro a defnyddio Mind of my Own ac mae ganddynt berthnasoedd da gyda'r plant. Gall plant ei ddefnyddio hyd yn oed pan nad yw'r Gweithwyr Cymdeithasol yno, ac mae'n casglu eu teimladau / meddyliau 'ar y funud' ac mae'n golygu y gallwn weithredu'n gyflymach ac ymweld â'r plentyn i ymdrin ag unrhyw bryderon rhwng yr ymweliadau rheolaidd a gynllunnir. Byddai'n help mawr pe gallai mwy o ysgolion ymuno er mwyn casglu safbwyntiau plant yn hytrach nag aros am ein hymweliadau".

sydd wedi cael eu defnyddio yn ôl trefn amser wrth ystyried gweithdrefnau gofal. Mae'n dystiolaeth o lais y plentyn, ei brofiad bywyd ac yn adrodd pryderon.

**Cyfweliadau Dychwelyd Adref**

Ar hyn o bryd mae Sir Ddinbych yn rhan o gynllun peilot ynghylch Cyfweliadau Dychwelyd Adref. Cytunwyd ar hyn yn dilyn gweithdy rhanbarthol i edrych ar y broses Cyfweliadau Dychwelyd Adref yn y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru. Dechreuodd Sir Ddinbych y cynllun peilot ym mis Ionawr 2026 ac Ynys Môn ym mis Tachwedd 2025. Mae'r ddau ohonom yn gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sydd wedi ariannu dau gydlynydd dychwelyd adref.

Pwrpas y cynllun peilot yw symleiddio'r broses fel bod y 6 Awdurdod Lleol yn defnyddio'r un broses i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru. Y nod yw edrych ar y data i ddeall unrhyw rwystrau i gwblhau'r gwaith hwn a deall pam bod plant a phobl ifanc yn mynd ar goll, ac nid o safbwynt cam-fanteisio'n unig. Bydd yn helpu gyda'r ddealltwriaeth yn ogystal ag unrhyw wasanaethau atal y gellir eu cynnig i leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n mynd 'Ar Goll'.

**Astudiaeth Achos Cydweithio - Darpariaeth Gwasanaeth Therapiwtig**

Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig a Thîm Niwro-ddatblygiad BIPBC wedi bod yn cydweithio ers sawl blwyddyn i gefnogi plant yn Sir Ddinbych sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Statudol. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn dilyn llwybr y cytunwyd arno, mae llawer o blant a'u teuluoedd wedi cael dealltwriaeth well ohonynt eu hunain a'u Niwroamrywiaeth drwy'r cydweithio hwn.  Mae hon yn stori fer am un ohonynt (newidiwyd yr enw a'r manylion penodol at ddibenion cyfrinachedd).

Plentyn B - Byddai ei rieni'n dweud ei fod wedi bod ychydig yn "wahanol" i'w frodyr a'i chwiorydd erioed, fodd bynnag oherwydd y ffactorau allanol niferus sy'n effeithio ar Blentyn B a'i deulu megis tlodi bwyd, anawsterau dysgu'r rhieni a bwlio yn y gymuned, cafodd anawsterau Plentyn B yn yr ysgol a'r cartref eu ffurfio yn y cyd-destun hwn bob amser.

Chwe mis yn ôl daeth y Tîm Niwro-ddatblygiad a'r Gwasanaeth Therapiwtig at ei gilydd i feddwl am Blentyn B yn gyfannol. Gan ddefnyddio eu hadnoddau ar y cyd a hanes y teulu a Phlentyn B yn y lleoliad addysg, lluniwyd dealltwriaeth lawn o Blentyn B, heb fod angen i'r teulu fod yn rhan o asesiad cymhleth neu apwyntiadau fyddai wedi eu llethu. Roedd hyn yn golygu bod y teulu wedi treulio amser gyda gweithwyr proffesiynol oedden nhw'n eu hadnabod yn deall eu mab yn eu cartref ar eu cyflymdra eu hunain. Yn gynharach eleni, cafodd eu mab ddiagnosis o ADHD.

Crïodd y rhieni mewn rhyddhad pan rannwyd y newyddion â nhw.  Eglurodd y rhieni eu bod yn teimlo bod rhywun wedi gwrando arnynt a'u bod yn deall anghenion eu mab a'i brofiad bywyd yn llawer gwell.

**Cydweithio'n Genedlaethol ac yn Rhanbarthol**

Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant, mae'r tîm rheoli yn cydweithio gydag ystod o fudd-ddeiliaid a phartneriaid allweddol ym mhob cwr o Ogledd Cymru ac yn genedlaethol.

Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi bod yn aelod ers tro o'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cydweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.  Mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn cyd-gadeirydd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Is-Gadeirydd y Bwrdd Cynllunio Ardal ac yn aelod o'r Cyngor Gweithlu Addysg, ble mae'n cadeirio'r Pwyllgor Rheoleiddio a Chofrestru.

Pennaeth y Gwasanaethau Plant yw cadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan sy'n bwydo i'r gwaith a wneir gan y Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant Gogledd Cymru yn ogystal â chynrychioli Sir Ddinbych ar ystod o grwpiau eraill megis Bwrdd Pobl

Ddiamddiffyn a Chamfanteisio Gogledd Cymru, Grŵp Adolygu Achosion Diogelu Unedig Sengl Gogledd Cymru (Plant), Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol a'r Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg.

Mae'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd yn aelod o grŵp Penaethiaid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Cymru Gyfan sy'n cydweithio gyda'r Swyddfa Genedlaethol ar gyfer Gofal ac mae'n cynrychioli'r grŵp ar y Bwrdd Newid Hinsawdd Gofal Cymdeithasol cenedlaethol. Mae hefyd yn gadeirydd y Grŵp Llywio Prosiect Rhanbarthol Cyflogaeth â Chymorth yn ogystal â bod yn rhan fawr o Grŵp Penaethiaid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Gogledd Cymru.

Cynrychiolir Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych gan reolwyr yn y tîm arweinyddiaeth mewn ystod o gyfarfodydd, grwpiau llywio a byrddau partneriaeth cenedlaethol a rhanbarthol.

## Lles

"**Mae pobl yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed"**

**"Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu lles a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn a byw'n annibynnol am gyn hired â phosibl"**

- CH/021: Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i ymholiadau Adran 47. Aeth 422 o gyfarfodydd strategaeth ymlaen i ymholiadau Adran 47 o'i gymharu â 351 yn 2024 / 2025
- CH/022: Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a aeth ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Aeth 106 o achosion ymlaen i Gynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol, sy'n gynnydd o 49% o'i gymharu â 2024 / 2025 (71)
- CH/024: Nifer y plant a gafodd eu hychwanegu at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu: Ychwanegwyd 84 o blant at y gofrestr amddiffyn plant, sy'n gynnydd o 45% o 2024 / 2025 (58)

- AD/020: Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn a amheuir o fod mewn perygl a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn. Yn 2025 / 2026 roedd hyn yn gyfanswm o 449, gostyngiad o 94 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- AD/023: Cyfanswm nifer yr adroddiadau am oedolyn a amheuir o fod mewn perygl lle mae angen gwneud ymholiadau. Roedd hyn yn 449 yn ystod 2025 / 2026
- AD/026: Cyfanswm nifer yr ymholiadau lle penderfynwyd y dylid cymryd camau gweithredu ychwanegol. Mewn 42 achos, penderfynwyd y dylid cymryd camau gweithredu ychwanegol, sy'n ostyngiad o 16% o'i gymharu â 2024 / 2025 (8 achos)

Mewn Gwasanaethau Plant, rydym wedi gweld cynnydd o 17% yn nifer y cyfarfodydd strategol a gynhaliwyd sydd wedi arwain at ymholiadau Adran 47 o'i gymharu â 2024 / 2025 ac mae nifer yr ymholiadau sydd wedi symud ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Cychwynnol wedi cynyddu 49%. Mae cynnydd o 45% yn nifer y plant a ychwanegwyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant.

Yn y Gwasanaethau Oedolion, mae cynnydd o 8% wedi bod yn nifer yr adroddiadau am oedolyn a amheuir o fod mewn perygl, ond mae nifer yr ymholiadau a arweiniodd at gamau gweithredu ychwanegol wedi gostwng 16%. Mae rhesymau amrywiol am hyn, ond gallai olygu na thybiwyd bod yr unigolyn yn oedolyn mewn perygl neu nad oedd digon o dystiolaeth o gam-drin neu esgeulustod i fodloni'r trothwyon ar gyfer diogelu.

**Hyfforddiant: Diogelu 2025 / 2026**

Mae cyfleoedd dysgu rhanbarthol yn cael eu hyrwyddo i staff yn rheolaidd ac fe'u hanogir i fynychu. Roedd yr hyfforddiant i gefnogi diogelu yn 2025 / 2026 yn cynnwys:

Gwytnwch digidol ar-lein, Gofyn a Gweithredu, Diogelu Plant ac Oedolion Grŵp B, Asesu a Dadansoddi'r Perygl o Niwed Sylweddol, Atal a Bod yn Agored i Eithafiaeth, Amddiffyn Plant yn Effeithiol, Gweithdy VR wedi'i Arwain gan Drawma, Deall Canabis: Normau, Risgiau a Chyfrifoldebau.

**Hyfforddiant Realiti Rhithwir**

Ers mis Tachwedd 2022, mae Sir Ddinbych wedi bod yn buddsoddi mewn pensetiau a chynnwys Realiti Rhithwir drwy'r Anster / Cornerstone Group sy'n arbenigo mewn hyfforddiant gan blant a phobl ifanc. Datblygwyd y cynnwys ar y cyd â phlant a phobl ifanc sydd â phrofiad o leoliadau gofal ac mae'n tynnu sylw at broblemau fel effaith trawma, esgeulustod a chamdriniaeth yn ystod plentyndod cynnar; ymatebion therapiwtig i ymddygiad heriol yn yr ysgol ac mewn lleoliadau; achosion ac effaith cam-fanteisio troseddol a chyfres o senarios sy'n ymdrin â phynciau megis cam-fanteisio rhywiol, trais domestig ac effaith y cyfryngau cymdeithasol ar fywydau ifanc.

Mae'r Tîm Therapiwtig yn defnyddio'r adnodd i gefnogi aelodau allweddol o'r teulu i ddeall profiad bywyd y plant yn eu gofal. Mae'r ymyrraeth hon wedi cael effaith ac wedi caniatáu iddynt ystyried yr effaith y mae profiadau yn ystod plentyndod cynnar wedi'i gael ar siapio ymatebion emosiynol pan fyddant yn y lleoliad. Mae'r defnydd o Realiti Rhithwir i gefnogi dysgu wedi cael cymaint o groeso nes y mae bellach yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r model Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Ochr yn ochr â hyn, mae Tîm Datblygu'r Gweithlu wedi bod yn arwain cyfres o weithdai gyda gwahanol staff yng Nghyngor Sir Ddinbych i helpu eu dealltwriaeth o fod yn ymwybodol o drawma yn eu gwaith ac ystyried achosion trawma a'r ymatebion iddo ymhlith yr unigolion rydym yn gweithio gyda nhw. Mae'r gwerthusiadau wedi dangos bod hyn wedi cael croeso da a bod defnyddio Realiti Rhithwir wedi arwain at gysylltiad emosiynol gwell â'r pwnc a mwy o empathi gyda safbwynt y plentyn / unigolyn ifanc. "Fel oedolyn, doeddwn i ddim yn gallu edrych i fyw llygaid y dyn yn y ffilm, ac roeddwn i wedi dychryn pa mor ddi-rym roeddwn i'n teimlo. Nid yw hyn yn dod o lyfr". Mae'r tîm yn parhau i ddefnyddio'r adnodd i gefnogi digwyddiadau dysgu ac yn arwain sesiynau'n rheolaidd gyda myfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam a Choleg Llandrillo Menai. Maen nhw hefyd yn trafod gyda Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd i ddarparu sesiynau i swyddogion.

Mae technoleg Realiti Rhithwir bellach wedi cael ei ymgorffori mewn rhaglenni seico-addysg penodol i rieni o'r enw Rhiant Cysylltiedig ac NPP sy'n cefnogi rhieni a gofalwyr i ddeall datblygiad plentyn drwy lens ymlyniad, trawma a niwroamrywiaeth.

> Mae'r rhaglenni hyn wedi cael croeso da hyd yma, ac mae adborth yn cynnwys "Roeddwn i'n gwybod erioed nad oedd fy mhlentyndod yn wych ac mae gwneud y [rhaglen] hon wedi fy helpu i ddeall beth ddigwyddodd i mi fel y gallaf atal fy mhlant rhag cael yr un bywyd".

**Safonau Diogelu**

Mae Tîm Datblygu'r Gweithlu yn parhau i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant Grŵp B a Grŵp C. Maen nhw'n gweithio gyda darparwyr hyfforddiant allanol i ddatblygu pecynnau hyfforddi, a chyda thimau mewnol a'r sector ehangach i sicrhau bod gweithwyr yn cael yr hyfforddiant cywir ar gyfer eu swyddi.

**Just Enough Support**

Prosiect cyfnod penodol yw Just Enough Support fydd yn darparu cefnogaeth tymor byr i helpu unigolion ddysgu sgiliau newydd neu ddatblygu sgiliau sydd ganddynt eisoes. Arweinir y prosiect gan Therapi Galwedigaethol. Mae Therapi Galwedigaethol yn helpu pobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, neu ei angen neu sy'n rhaid eu cael yn eu bywydau. Yn dilyn asesiad sy'n nodi potensial galwedigaethol a defnyddio dull ataliol, gwelwyd hefyd ei fod yn lleihau'r angen am gymorth statudol hirdymor. Mae'r prosiect yn gweithio gydag oedolion sydd ag Anableddau Dysgu a/neu Awtistiaeth i fod yn fwy annibynnol gydag amrywiaeth o weithgareddau byw o ddydd i ddydd. Er enghraifft, trefn gofal personol, sgiliau coginio, hyfforddiant teithio a rheoli arian a chefnogaeth i ymgysylltu â chymunedau lleol ac i fynychu lleoliadau i wirfoddolwyr.

Mae Just Enough Support yn edrych ar yr holl adnoddau mewnol ac allanol i helpu i nodi'r lefel fwyaf priodol o gefnogaeth i ddinasyddion, gan ddilyn y gefnogaeth gyffredinol y mae'r Coleg Brenhinol Therapi Galwedigaethol yn ei hyrwyddo. Eleni, mae'r gwasanaeth wedi gweithio ochr yn ochr â Choleg Llandrillo.

Mae cynnydd wedi bod yn yr atgyfeiriadau at Just Enough Support yn y tîm anableddau cymhleth. Mae dinasyddion yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth am gefnogaeth ar gyllidebu. Oherwydd y cymhlethdod a'r meysydd cydberthynol o fewn

cyllidebu, roeddem yn awyddus i roi cyfle i'n dinasyddion gael mynediad at goleg lleol a chwrs pwrpasol, yn benodol i roi mwy o addysg iddynt ar y pwnc. Roedd y cwrs 5 wythnos a ddatblygwyd ac a ddarparwyd mewn partneriaeth â Choleg Llandrillo yn cynnwys y meysydd canlynol.

Agweddau at arian

- Beth yw incwm a gwariant
- Gwario hanfodol a heb fod yn hanfodol
- Eisiau yn hytrach nag angen personol (blaenoriaethu gwariant)
- Cost cynnyrch - Siopa'n economaidd
- Y Prawf blasu - brandiau o'u cymharu â bwydydd heblaw rhai brandiau
- Siopa o fewn cyllideb
- Terminoleg bancio, cardiau banc, y broses o dalu a deall cyfriflen banc
- Llunio cynllun cyllideb personol

Yn dilyn y cwrs, rhoddodd y rhai oedd wedi mynychu yr adborth a ganlyn:

> "Rydw i'n deall sut i arbed arian yn well"
>
> "Mae wedi bod yn ddiddorol iawn"
>
> "Roeddwn i'n hapus ar y cwrs"
>
> "Roedd yn ddefnyddiol iawn"
>
> "Gallaf wneud mwy o bethau ar fy mhen fy hun, gallaf wneud cyllideb am y mis erbyn hyn"
>
> "Mae wedi fy helpu i fod yn ofalus gyda fy arian"

Dywedodd y tiwtor o Goleg Llandrillo:

“Aeth y sesiynau’n dda ac mi wnes i fwynhau gweithio gyda’r grŵp yn fawr iawn. Mae’r cwrs hwn yn hanfodol yn fy marn i, gan fod bwlch amlwg yn y system bresennol. Rydym yn parhau i gydweithio gyda’r therapydd galwedigaethol o’r Tîm Anableddau Cymhleth i ddatblygu a chynnig cyrsiau ychwanegol yn 2026.”

Bydd y prosiect Just Enough Support yn cynllunio mwy o gyrsiau ar y cyd â Choleg Llandrillo i gefnogi annibyniaeth ac ymreolaeth dinasyddion dros y 12 mis nesaf.

**Rhaglen Ar Ymyl Gofal**

Mae’r Rhaglen Ar Ymyl Gofal yn rhan o’r Gwasanaeth Therapiwtig a’i nod yw:

- Cefnogi teuluoedd i ymdrin â’u problemau a gwneud newidiadau cadarnhaol a allai leihau’r risgiau i’w plant, yn ogystal â’u helpu i wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymuned ble maent yn byw.
- Darparu cefnogaeth ddwys i deuluoedd diamddiffyn gyda phroblemau cymhleth lluosog, lle mae / roedd posibilrwydd cryf y gallai plentyn gael ei roi mewn gofal.
- Galluogi amgylchiadau plentyn i wella a rhoi’r sgiliau teuluol er mwyn iddynt fedru cynnal eu gwelliannau eu hunain.

Mae gan y rhaglen bwyslais cryf ar ddarparu ymyrraeth ddwys yn y cartref i’r teulu cyfan ble ystyrir bod plant ‘ar ymyl gofal’. Mae’r rhaglen Ar Ymyl Gofal hefyd yn darparu ymyrraeth yr un mor ddwys i blant sydd wedi bod mewn gofal yn cynnwys rhai mewn lleoliadau preswyl, ble bwriedir iddynt ddychwelyd at eu teulu gwreiddiol neu ofal maeth cyffredinol neu blant sydd wedi cael eu mabwysiadu pan fo angen cefnogaeth sylweddol i atal y lleoliad rhag methu. Mae’r Rhaglen Ar Ymyl Gofal yn gweithio o fewn model asesu ac ymyrraeth y Tîm Cymorth Integredig i Deuluoedd. Mae’n darparu’r ymyrraeth dros ddim mwy na 12 wythnos gan gyflwyno adnoddau ymarferol byr a meithrin adnoddau cymunedol/ehangach yn defnyddio nodau sy’n canolbwyntio ar ganlyniad sydd wedi eu llunio ar y cyd â’r plentyn / unigolyn ifanc a’i deulu.

**Grŵp Cyfranogi i Rieni**

Rhieni a gofalwyr yw ein llinell amddiffyn gyntaf i gadw plant yn ddiogel rhag pob math o gam-fanteisio. Mae bod yn ymwybodol o'r newidiadau a allai olygu bod eu plentyn yn cael ei ecsbloetio yn golygu y gall rhieni chwilio am y gefnogaeth gywir.

Mae'r Grŵp Cyfranogi i Rieni yn cael ei arwain gan rieni a gofalwyr i ddod â nhw at ei gilydd i rannu profiadau mewn lle diogel. Hwylusir y grŵp gan Wasanaeth Therapiwtig Sir Ddinbych ac mae sylwadau gan rieni a gofalwyr isod am y grŵp:

> "Roedd arna i ofn cerdded i mewn, ond gwnaeth y bobl i mi deimlo mor groesawgar a ddim mor unig"
>
> "Nid wyf ar fy mhen fy hun - rydw i'n fwy hyderus"
>
> "Rydw i wedi dysgu cymaint am Gamfanteisio Rhywiol yn erbyn Plant ac rydw i'n deall rŵan"
>
> "Mi wnes i grio wrth ymuno, roedd mor emosiynol"

Mae gweithwyr proffesiynol o wahanol sectorau'n ymuno â'r sesiynau i rannu pwrpas eu swyddi ac addysg. Mae'r grŵp yn rhoi adborth ar bethau sy'n mynd yn dda a'r pethau nad ydynt yn mynd cystal. Drwy'r broses hon o rannu gwybodaeth ac wrth i weithwyr proffesiynol a theuluoedd ddysgu gan y naill a'r llall, mae'n bosib cadw'r plant yn y gymuned yn fwy diogel. Mae deg aelod newydd wedi ymuno â'r grŵp. Erbyn hyn, mae'r lleoliad yn gofyn am daliad bychan i gadw lle a gwelir hyn fel angen doeth a pharhaus i'n rhieni a gofalwyr.

Gyda chysylltiadau cryf ag ymddiriedolaeth Iveson, sicrhaodd y Gwasanaeth Therapiwtig ddiwrnod llawn o hyfforddiant Hyfforddi'r Hyfforddwyr gan Experts by Experience. Mynychodd staff Sir Ddinbych o'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, diogelu, darparwyr gofal preswyl annibynnol, Bwthyn y Ddôl, addysg, arbenigwyr dychwelyd adref, cyfiawnder ieuenctid a swyddog heddlu arbenigol camfanteisio. Y bwriad dros y flwyddyn nesaf fydd datblygu tîm hyfforddi bychan i ddatblygu hyn fel adnodd yn y gymuned ehangach.

**Grwpiau Sgiliau DBT**

Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig wedi darparu ymyrraeth therapiwtig uchel ei pharch, sef Therapi Ymddygiad Dialetig (DBT), ers bron i saith mlynedd. Mae DBT yn brofiad sy'n seiliedig ar sgiliau sy'n caniatáu i rieni a gofalwyr ddatblygu sgiliau bywyd craidd sy'n helpu unigolion i reoleiddio emosiynau cryf, rheoli sefyllfaoedd llawn straen ac arfer gyda bod yn fwy caredig â nhw eu hunain ac eraill. Mae’r grŵp yn cynnwys pedair cyfres o sgiliau; Ymwybyddiaeth Ofalgar (cynyddu hunanymwybyddiaeth i helpu unigolyn i ymdopi); Effeithlonrwydd Rhyngbersonol (gallu cyfathrebu gyda phobl yn fwy effeithiol); Rheoli Emosiynau (dysgu sut i ddeall emosiynau a’u heffaith ar ymddygiad) a Goddef Trallod (datblygu’r gallu i ddioddef straen ac ymdopi’n fwy effeithiol mewn argyfwng). Pan gânt eu dwyn ynghyd, mae'r sgiliau hyn yn adeiladu tuag at fywyd gwerth ei fyw.

Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig yn llwyddiannus iawn wrth weithio gyda dynion fel tadau a gofalwyr ac mae Grŵp DBT gwrywaidd bellach yn rhan o'r cynnig DBT. Mae pedwar grŵp ar wahân wedi cael eu hwyluso gan y Tîm Therapiwtig, a arweiniodd at 42 o famau a thadau yn elwa o ddysgu gyda'i gilydd. Mae'r adborth yn parhau i fod yn gadarnhaol “anhygoel, dylwn i fod wedi cael hwn pan oeddwn i'n iau”, “adnodd pwerus iawn, wna i fyth ei anghofio a bydda i’n parhau i ymarfer”.

Lle gall rhieni a gofalwyr gael trafferth mynychu'r grŵp, gellir cynnig sgiliau DBT 1:1 fel ffordd o feithrin hyder i ymuno â grŵp yn y dyfodol gan fod y negeseuon gan y mynychwyr yn tynnu sylw at natur bwerus bod ochr yn ochr ag eraill wrth ddilysu cynnydd a rhwystrau posibl i gydnabod a dathlu cryfderau personol.

**Model Amddiffyn Plant yn Effeithiol**

Mae Gwasanaeth Addysg a Phlant Sir Ddinbych wrthi’n rhoi Model Amddiffyn Plant yn Effeithiol ar waith. Cynhaliwyd hyfforddiant i’n staff mewnol ac asiantaethau partner ac mae mwy o sesiynau yn yr arfaeth.

| Hyfforddiant a Chefnogaeth | Yn bresennol |
|---|---|
| Hyfforddiant i staff mewnol | 79 |
| Sesiynau Cefnogi Mentoriaid | 14 |

| | |
|---|---|
| Sesiynau Briffio i Asiantaethau Partner | 64 |
| Gweithdai Hanner Diwrnod i Asiantaethau Partner | 65 |

1 Rhagfyr 2025, Lansiad tawel - sicrhau bod yr holl ddogfennau, canllawiau a thempledi ar gael i staff er mwyn cefnogi asesiadau paratoi a'r adroddiadau gofynnol er mwyn gallu trefnu Cynhadledd. Mae staff yn cael cefnogaeth barhaus drwy sesiynau galw heibio gyda mentoriaid a sesiynau myfyriol i gael cefnogaeth ac arweiniad.

1 Ionawr 2026, Lansio'r Gynhadledd - Mae pob Cynhadledd Amddiffyn Plant o'r dyddiad hwn wedi cael eu cynnal dan y model Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Rhennir Bwletinau rheolaidd yn fewnol â staff a phartneriaid. Cynhaliwyd trafodaethau ag amrywiaeth o fudd-ddeiliaid i ddatblygu mwy ar brosesau ac ymgorffori'r model mewn timau a gwasanaethau mewnol, ond hefyd gyda'n hasiantaethau partner ac Awdurdodau Lleol eraill gan ddefnyddio Amddiffyn Plant yn Effeithiol i rannu arfer da. Mae'r canllawiau i weithwyr proffesiynol, teuluoedd, plant a phobl ifanc wedi cael eu diweddaru'n unol â'r Model Amddiffyn Plant yn Effeithiol a'u rhoi ar wefan gyhoeddus.

Rydym yn parhau i groesawu adborth gan fudd-ddeiliaid sy'n llywio datblygiadau pellach.

**Yr hyn sydd gennym ar y gweill ar gyfer 2026 / 2027**

Rhoi camau gweithredu ar waith o ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys sy'n ailddiffinio colli rhyddid.

Parhau i gydweithio gyda Choleg Llandrillo a'n gwasanaeth 'Just Enough Support' i ddarparu cyrsiau ar y cyd i gefnogi annibyniaeth ac ymreolaeth dinasyddion.

Datblygu prosesau ymhellach ac ymgorffori model Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn Sir Ddinbych.

# 4. Adran gwybodaeth arall

## Arolygon ac Adolygiadau

Yn ystod 2025 / 2026, cafodd Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Plant eu harchwilio neu eu hadolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru mewn 4 lleoliad gwahanol.

Mae'r holl arolygon ac adolygiadau'n dilyn egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac mae pob archwiliad yn edrych ar bedair prif thema - Pobl, Atal, Lles a Phartneriaethau.

Cafodd cartref gofal preswyl **Cysgod y Gaer** ei arolygu ym mis Awst 2025 a gellir gweld dolen i'r adroddiad yma Adroddiad arolygu Cysgod y Gaer gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cafodd y **Tîm Annibyniaeth yn y Cartref,** ein gwasanaeth gofal yn y cartref ei arolygu ym mis Awst 2025 a gellir gweld dolen i'r adroddiad yma Adroddiad arolygu'r Gwasanaeth Gofal yn y Cartref gan Arolygiaeth Gofal Cymru

Cafodd **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Medi 2026 a gellir gweld dolen i'r adroddiad yma Adroddiad arolygu Gwerthuso Perfformiad

Cafodd cartref gofal preswyl **Dolwen** ei arolygu ym mis Rhagfyr 2025 a gellir gweld dolen i'r adroddiad yma Adroddiad arolygu Dolwen gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

## Cwynion a Sylwadau

Caiff cwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol eu prosesu dan ddwy weithdrefn ar wahân. Rheolir y gweithdrefnau hyn gan swyddog pwrpasol a statudol sef y Swyddog Cwynion Statudol a Chorfforaethol.

1. Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 pan fydd testun y gŵyn yn cael gwasanaeth gan yr awdurdod neu mae'r achwynydd yn gweithredu gyda chydsyniad. Gallai hyn fod yn aelod o'r teulu neu, er enghraifft, eiriolydd.

2. Polisi Cwynion Eich Llais. Polisi cwynion y Cyngor yw hwn, wedi'i fabwysiadu o Fodel Enghreifftiol ar gyfer Cwynion 2019 gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Mae'n galluogi i aelodau'r cyhoedd, er nad ydynt yn cael gwasanaethau'n uniongyrchol, wneud cwynion priodol pan fyddant yn teimlo bod methiant mewn gwasanaeth wedi digwydd.

Er enghraifft, gallai hyn olygu aelod o'r cyhoedd yn gwneud cwyn yn erbyn Cartref Gofal sy'n cael ei gynnal gan yr Awdurdod oherwydd sylw a wnaed er nad oes ganddynt deulu'n byw yno.

Gellir ymdrin yn fewnol â chwynion uniongyrchol am aelod o staff ble mae camymddwyn neu safonau proffesiynol yn cael eu cwestiynu drwy brosesau AD hefyd oherwydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Rhennir y meysydd cwynion fel a ganlyn: Cyfathrebu, Cyfrinachedd, Cwrteisi a Pharch, Cydraddoldeb, Gwybodaeth, Gwasanaeth a Staff. Mae cwynion am gydraddoldeb yn cael eu rhannu ymhellach yn Nodweddion Gwarchodedig.

Mae dau gam i'r drefn gwyno, datrysiad anffurfiol yng Ngham 1 a datrysiad ffurfiol yng Ngham 2.

| Maes Gwasanaeth | Cwynion Cam 1 | Cwynion Cam 2 | Cwynion a gadarnhawyd/a gadarnhawyd yn rhannol |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Addysg a Phlant | 3 | 12 | 8 |
| Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd | 13 | 5 | 10 |

Mae cwynion / pryderon na all fod yn destun y polisïau cwynion ble mae ymchwiliadau ar y gweill. Byddai'r rhain yn gwynion am achosion llys neu faterion amddiffyn oedolion/plant, er enghraifft.  Yn yr achosion hynny, gwahoddir y sawl sy'n cwyno i ailgyflwyno ei gŵyn pan fydd y prosesau perthnasol wedi dod i ben.

Hefyd, pan godir cwyn ar lafar a phan ymatebir iddi cyn pen 24 awr mewn ffordd sy'n bodloni'r sawl sy'n cwyno, ni chaiff ei gofnodi fel cwyn ond yn hytrach fel pryder anffurfiol.  Mae hyn yn wir am nifer o broblemau a allai godi yn ystod ymweliadau â'r cartref, pan fydd eglurhad manwl a phrydlon o'r prosesau yn gallu bodloni pryderon cychwynnol.

Yn aml, mae hyn yn ddefnyddiol i achwynwyr nad ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r drefn gwyno lawn ac sy'n teimlo bod sgwrs gychwynnol, gyda'r Rheolwr Tîm fel arfer, yn ddigon.

Mae mwyafrif y cwynion a gofnodwyd yn 2025/2026 yn ymwneud â'r categorïau 'Gwasanaeth' a 'Chyfathrebu', sy'n cynnwys y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Cafodd enghraifft o gŵyn yn ymwneud â gwasanaeth ei hymchwilio ar Gam 2 yn 2025 / 2026, ble roedd problem gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd gan Gartref Gofal. Gan mai'r Awdurdod oedd yn comisiynu'r gwasanaeth yn y pen draw, cynhaliwyd ymchwiliad Cam 2 gan Swyddog Ymchwilio Annibynnol a ddaeth i'r casgliad nad oedd problem â rôl yr Awdurdod ac ni chadarnhawyd y gŵyn.

Bwriad y systemau a ddefnyddir i gofnodi cwynion yw helpu i benderfynu ar ddadansoddiad o'r rhesymau wrth wraidd y gŵyn i'r Awdurdod. Nid oedd meysydd pryder a godwyd dro ar ôl tro yn 2025/2026.

Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw gwynion neu sylwadau yn ymwneud â'r Nodweddion Gwarchodedig yn 2025/2026. Y Canolwr ar gyfer trefn gwynion Awdurdodau Lleol yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac ni wnaed unrhyw benderfyniadau am ymchwiliadau yn erbyn yr Awdurdod yn 2025/2026, er y cawsom argymhelliad ar gyfer un achos.

# Ffynonellau gwybodaeth eraill

## Rhestr Termau

Bwthyn y Ddôl

Dull tîm amlddisgyblaethol o weithio gyda phlant a phobl ifanc ar ffin y system ofal ac mewn perygl o dderbyn gofal gan nad yw eu rhiant neu ofalwr, am amrywiaeth o resymau, yn gallu rheoli dynamig teuluol iach. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar ffurfio cryfderau ac anawsterau, peryglon ac anghenion drwy broses ymgynghori i ddechrau, er mwyn argymell rhaglen o ymyraethau.

Datblygwyd y dull gofal drwy dîm amlasiantaeth gyda phwyslais ar ofynion ac anghenion penodol plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae'r dull arloesol hwn o lunio model gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â'r ymarfer myfyriol a fabwysiadwyd gan y tîm, eisoes wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol pan fo'r plant / pobl ifanc yn cwblhau'r ymyrraeth yn llwyddiannus ac yn aros yn eu cartref gyda theulu'n ddiogel.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr gofal cymdeithasol a gofal plant annibynnol yng Nghymru. Maen nhw'n cofrestru, arolygu ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.

Llyw-wyr Cymunedol

Gweithio ochr yn ochr ag Un Pwynt Mynediad yr awdurdod lleol a chynnal asesiad Beth sy'n Bwysig i bennu pa gymorth y gallant ei roi a/neu eich cyfeirio at gymorth addas yn y gymuned. Gweler y manylion ar adnodd DEWIS Cymru.

Timau Adnoddau Cymunedol

Cynnig dull mwy cyfannol i ofal cymdeithasol ac iechyd yn y gymuned gyda staff iechyd (gan gynnwys nyrsys cymunedol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a thimau iechyd meddwl pobl hŷn) a staff gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol) gyda'i gilydd. Mae naw tîm yn gweithio ar y cyd yn Sir Ddinbych a Chonwy i ganolbwyntio ar gydweithio gwell er mwyn darparu gofal

sy’n nes at adref, a chynnig darpariaeth well i’r boblogaeth a rhagor o bwyslais a buddsoddiad ar atal ac ymyrraeth gynnar.  Gweler y manylion yn Llais y Sir

Grwpiau Sgiliau Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT)

Mae DBT yn brofiad sy'n seiliedig ar sgiliau sy'n caniatáu i rieni a gofalwyr ddatblygu sgiliau bywyd craidd sy'n helpu unigolion i reoleiddio emosiynau cryf, rheoli sefyllfaoedd llawn straen ac arfer gyda bod yn fwy caredig â nhw eu hunain ac eraill.

Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU)

Mae’r Uned yn cefnogi ac yn eiriol dros unigolion a’u plant sy’n cael eu cam-drin gan rywun y mae ganddynt berthynas agos a phersonol â nhw.  Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ar wefan DASU

Tîm Ar Ymyl Gofal - Oedolion

Mae’r Tîm Ar Ymyl Gofal yn rhan o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion, ac mae’n recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr.  Mae’r Tîm wedi dangos sut gall y prosiect gael effaith gadarnhaol ar y llwybrau gofal cynlluniedig, drwy helpu i ryddhau dinasyddion o’r ysbyty, gan weithio’n agos gyda’n Timau Adnoddau Cymunedol i ddarparu dull ‘tîm o amgylch yr unigolyn’ a lleihau’r galw ar gyfer gofal traddodiadol cynlluniedig.

Gwasanaeth Ar Ymyl Gofal - Plant

Cefnogaeth i deuluoedd diamddiffyn y mae eu plant mewn perygl o fod angen gofal gan yr awdurdod lleol. Gweler y manylion ar wefan Llywodraeth Cymru.

Teuluoedd yn Gyntaf

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn  rhaglen wedi ei chynllunio i wella canlyniadau i blant, pobl ifanc, a’u teuluoedd drwy gynnig ymyrraeth gynnar a chefnogaeth i deuluoedd cyfan, yn hytrach nag unigolion yn unig. Mae’n pwysleisio dull sy’n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy’n gweithio’n dda mewn teulu i feithrin gwytnwch a hunanddibyniaeth. Mae’r rhaglen yn hyrwyddo gwaith amlasiantaeth i sicrhau bod teuluoedd yn cael cefnogaeth gydlynus pan fydd arnynt ei hangen, gyda’r nod o atal problemau rhag dwysau a lleihau’r angen am wasanaethau statudol drud yn nes ymlaen.  Hoffech chi help llaw gan Deuluoedd yn Gyntaf | LLYW.CYMRU

Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n targedu ardaloedd difreintiedig i wella canlyniadau i blant rhwng 0 - 3 oed a'u teuluoedd. Mae'n darparu gwasanaethau gwell megis gofal plant, ymwelwyr iechyd, cymorth magu plant a rhaglenni iaith a chwarae, gyda'r nod o roi dechrau da i blant cyn iddynt ddechrau'r ysgol. Mae'r rhaglen yn cael ei thargedu'n ddaearyddol ac yn canolbwyntio ar ardaloedd bel mae cyfran uchel o blant yn byw mewn cartrefi heb fawr o incwm. [Rhaglen Dechrau'n Deg | LLYW.CYMRU]

Eiriolwr Annibynnol Galluedd Meddyliol

Mae Eiriolwyr Annibynnol Galluedd Meddyliol yn hollol annibynnol ar yr awdurdod lleol a chyrff y GIG. Eu prif waith yw nid gwneud penderfyniadau, ond i sicrhau bod dymuniadau, teimladau, credoau a gwerthoedd yr unigolyn yn cael eu cynrychioli'n llawn a bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n dilyn y drefn "budd pennaf".

Eiriolwr Annibynnol Iechyd Meddwl

Mae Eiriolwr Annibynnol Iechyd Meddwl yn eiriolwr cyfrinachol, am ddim sy'n arbenigo yn y Ddeddf Iechyd Meddwl. Maen nhw'n helpu pobl ddeall eu hawliau, archwilio opsiynau gofal a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed pan wneir penderfyniadau am eu gofal.

Mwy na Geiriau

Mwy na Geiriau yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar. Mae'n mandadu Cynnig Rhagweithiol, sy'n golygu bod yn rhaid i wasanaethau gael eu darparu yn Gymraeg yn rhagweithiol heb i rywun orfod gofyn amdanynt.

Symud ag Urddas

Ers 2019, mae Therapydd Galwedigaethol wedi bod yn gweithio ar y prosiect hwn o fewn y Tîm Adolygu, gan fwrw ymlaen â chynlluniau ymarferol i weithredu newidiadau i'r ffordd y mae preswylwyr Sir Ddinbych yn cael eu hasesu ar gyfer cefnogaeth symud a chodi, a'i dderbyn. Mae hi wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall y broblem, ymchwilio i arfer orau, a nodi ffyrdd o ddarparu hyfforddiant effeithiol ac ymgysylltu â'r grwpiau staffio cywir (gan gynnwys yr awdurdodau lleol, cydweithwyr iechyd a gwasanaethau darparwyr).

Fe allai hyn helpu i gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac fe allai gael effaith gadarnhaol ar les a synnwyr o reolaeth dinasyddion a'u gofalwyr, gan gynyddu gwytnwch ac ymgysylltiad.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC)

Darparu gwybodaeth, cefnogaeth unigol, hyfforddiant a chwnsela i ofalwyr di-dâl yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae'r manylion ar adnodd DEWIS Cymru.

Cynllunio Sawl Yfory gyda Gobaith (PATH)

Mae PATH yn fframwaith cynllunio gweledol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i helpu unigolion a thimau ddiffinio nodau hirdymor a mapio llwybrau ymarferol i'w cyflawni. Fe'i defnyddir yn eang mewn addysg, gofal iechyd a chynllunio trawsnewid i ganolbwyntio ar y potensial yn hytrach na'r cyfyngiadau.

Adran 47

Mae ymholiad Adran 47 yn ymchwiliad cyfreithiol gan Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Plant a'r Heddlu. Mae'n cael ei sbarduno pan fydd achos rhesymol i amau bod plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef 'niwed sylweddol.' Y nod yw darganfod os yw'r plentyn yn ddiogel a phennu os oes angen cymryd camau i'w amddiffyn.

Un Pwynt Mynediad

Mae'r tîm yn cynnwys staff profiadol o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, sy'n gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae Un Pwynt Mynediad yn 'ddrws ffrynt i wasanaethau' i sicrhau eich bod yn cael y gofal cywir, yn y man cywir gan bobl sydd â'r sgiliau cywir ar yr amser cywir - y tro cyntaf. Gweler y manylion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol yn cryfhau trefniadau diogelu ar gyfer y rhai sydd ei angen, yn sefydlu system reoliadol sy'n unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn creu system reoliadol sy'n canolbwyntio ar y bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Y Ddeddf hon yw'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol yn strategaeth gan Lywodraeth Cymru a lansiwyd yn 2022, gyda'r bwriad o ddileu hiliaeth systemig a sefydliadol. Ei nod cyffredinol yw dod yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030 drwy lywio gwelliannau mesuradwy ym mywydau bob dydd cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig.

Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru

Mae TGP Cymru yn ddarparwr cofrestredig gwasanaethau eirioli statudol. Yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru.

Troi Dim ond Unwaith

Mae'r dull Troi Dim Ond Unwaith yn ddull amgen o ymolchi a gwisgo am unigolion sy'n byw â dementia. Nod y dull yw lleihau symbyliad synhwyraidd diangen a symudiad goddefol yn ystod y drefn ofal personol er mwyn lleihau straen, paratonia ac ymatebion gwrtheddol. Mae'r ddamcaniaeth sy'n sail i'r dull wedi'i llywio'n gryf gan y synhwyrau ac yn canolbwyntio ar gynnal urddas, preifatrwydd a diogelwch emosiynol drwy ddarparu gofal.

Y Bont

Mae'r Bont yn sefydliad elusennol sy'n gweithio i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahanu neu sydd mewn perygl o gael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd am ba bynnag reswm, ac i'w cefnogi. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion ar wefan Y Bont